



**Gwasanaeth  
Mabwysiadu**  
Gogledd Cymru

North Wales  
**Adoption  
Service**

## DATGANIAD O DDIBEN

### MEDI 2020



**CYNNWYS**

<b>Adran</b>	<b>Teitl</b>	<b>Tudalen</b>
<b>1.0</b>	<b>Datganiad Cenhadaeth</b>	<b>2.</b>
<b>2.0</b>	<b>Cyflwyniad</b>	<b>2.</b>
<b>3.0</b>	<b>Datganiad o Ddiben</b>	<b>2.</b>
<b>4.0</b>	<b>Canllaw i Blant</b>	<b>3.</b>
<b>5.0</b>	<b>Nodau, Amcanion a Swyddogaethau</b>	<b>3.</b>
<b>6.0</b>	<b>Gwerthoedd</b>	<b>5.</b>
<b>7.0</b>	<b>Statws a Chyfansoddiad</b>	<b>5.</b>
<b>8.0</b>	<b>Partneriaethau Asiantaethau Mabwysiadu</b>	<b>5.</b>
<b>9.0</b>	<b>Monitro ac Adolygu</b>	<b>6.</b>
<b>10.0</b>	<b>Gwasanaethau i Blant</b>	<b>9.</b>
<b>11.0</b>	<b>Recriwtio, cymeradwyo, hyfforddi, cefnogi ac adolygu mabwysiadwyr.</b>	<b>12.</b>
<b>12.0</b>	<b>Y Panel Mabwysiadu</b>	<b>16.</b>
<b>13.0</b>	<b>Mabwysiadu ag Eifen Dramor</b>	<b>17.</b>
<b>14.0</b>	<b>Gofalwyr Maeth sy'n dymuno Mabwysiadu</b>	<b>18.</b>
<b>15.0</b>	<b>Partner y Rhiant</b>	<b>18.</b>
<b>16.0</b>	<b>Gwasanaethau i Deuluoedd Biolegol</b>	<b>18.</b>
<b>17.0</b>	<b>Gwasanaethau Cyfryngu</b>	<b>19.</b>
<b>18.0</b>	<b>Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu</b>	<b>19.</b>
<b>19.0</b>	<b>Sylwadau a Chwynion</b>	<b>21.</b>
<b>20.0</b>	<b>Adolygiad Annibynnol o Benderfyniad</b>	<b>22.</b>
<b>21.0</b>	<b>Rôl Arolygiaeth Gofal Cymru</b>	<b>22.</b>
<b>22.0</b>	<b>MANYLION CYSWLLT</b>	<b>23.</b>
<b>23.0</b>	<b>Strwythur Sefydliadol</b>	<b>24.</b>
<b>24.0</b>	<b>Staff</b>	<b>25.</b>

## 1.0 Datganiad Cenhadaeth

*"Dylai plant na all eu teuluoedd eu hunain ofalu amdanynt gael cynnig sefydlogrwydd drwy fabwysiadu, fel opsiwn i sicrhau cartrefi diogel, sicr sy'n cael eu cefnogi'n dda i ofalu amdanynt nes y byddanu yn oedolion a thu hwnt. Mae'r angen unigol sydd gan blentyn am gartref cariadus sy'n parchu ei hunaniaeth ac yn cynnig ymdeimlad cadarnhaol o les wrth wraidd gweithgarwch yr asiantaeth unigol yng Ngwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru (NWAS)".*

## 2.0 Cyflwyniad

- 2.1 Daeth Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Cafodd ei sefydlu i ddarparu gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol ar ran ardaloedd awdurdodau lleol Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn. Ym mis Ebrill 2014 cafodd y gwasanaeth ei integreiddio yn y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Mae'r gwasanaethau a ddarperir yn cydymffurfio â deddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau statudol cyfredol mabwysiadu, yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA) ac yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r gwasanaeth, o fewn yr adnoddau a ddyrannwyd.
- 2.2 O dan delerau Cytundeb Partneriaeth, mae pob asiantaeth fabwysiadu unigol yn aelod o Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru (NWAS) ac, o'r herwydd, yn ymroddedig i ddatblygiad unffurf gwasanaethau mabwysiadu ar sail ranbarthol er mwyn cynyddu'r amrywiaeth a dewis o fabwysiadwyr i blant sy'n gofyn am sefydlogrwydd trwy fabwysiadu. Lle bo hynny'n ymarferol ac yn ddymunol, caiff plant sydd ag angen am rieni mabwysiadu eu lleoli yn ardal Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru.

## 3.0 Datganiad o Ddiben

- 3.1 Mae'r Datganiad o Ddiben hwn wedi'i ddatblygu yn unol â Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019; Rheoliadau 4 i 5 ac Atodlen 1 ac mae'n bodloni'r gofynion gwybodaeth sy'n gynwysedig ynddynt.
- 3.2 Mae'r offerynnau statudol hyn yn mynnu bod asiantaethau mabwysiadu yn cynhyrchu Datganiad o Ddiben sy'n darparu nodau ac amcanion gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol a sut mae'r awdurdod lleol yn sicrhau ei fod yn cyflawni'r nodau a'r amcanion hynny.
- 3.3 Mae'n rhaid i'r awdurdod gyflenwi copi o'r Datganiad o Ddiben i'r bobl hynny a restrir o dan Reoliad 5(6), sef:

(a) Rheoleiddiwr y Gwasanaeth (Arolygiaeth Gofal Cymru)

- (b) Unigolion
- (c) Unrhyw gynrychiolwyr, oni bai y byddai hynny'n anghyson â lles yr unigolyn.

3.4 Mae unigolion yn cynnwys:

- Plentyn a allai gael ei fabwysiadu, ei riant neu ei warcheidwad
- Unigolyn sy'n dymuno mabwysiadu plentyn
- Unigolyn sydd wedi'i fabwysiadu, ei riant, rhiant biolegol neu gyn warcheidwad
- Unrhyw unigolion sy'n derbyn gwasanaethau cymorth mabwysiadu.

3.5 Mae cynrychiolwyr yn cynnwys:

- Unrhyw un sydd ag awdurdod cyfreithiol, neu ganiatâd yr unigolyn, i weithredu ar ran yr unigolyn.

3.6 Bydd y Datganiad o Ddiben yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau o leiaf bob blwyddyn ac yn unol ag unrhyw newidiadau neu ofynion brys. Caiff Rheoleiddiwr y Gwasanaeth, Unigolion a Chynrychiolwyr eu hysbysu o unrhyw ddiwygiad i'r Datganiad o Ddiben o leiaf 28 diwrnod cyn iddo ddod i rym.

## **4.0 Canllaw i Blant**

4.1 Mae'r Canllaw i Blant (Gwybodaeth am y gwasanaeth) wedi cael ei ddatblygu yn unol â Rheoliad 12 o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019, a'r angen i ddarparu gwybodaeth am y gwasanaeth i bob unigolyn mewn iaith, arddull cyflwyno a fformat priodol.

4.2 Mae'r Canllaw i Blant ar gael mewn amryw o fformatau er mwyn sicrhau ei fod yn addas i bob plentyn yn seiliedig ar oedran a lefel dealltwriaeth.

4.3 Mae'r Canllaw i Blant yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn unol â Rheoliad 12(3):

- Sut i godi pryder neu wneud cwyn
- Argaeledd gwasanaethau eirioli
- Rôl a manylion cyswllt Comisiynydd Plant Cymru.

## **5.0 Nodau, Amcanion a Swyddogaethau**

5.1 O dan y Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 mae pob awdurdod lleol yng Ngwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn asiantaeth fabwysiadu cymeradwy ac yn destun i:

- Reoliadau Mynediad i Wybodaeth (Mabwysiadu Ôl-gychwyn) (Cymru) 2002;
- Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadu Cyn-gychwyn) (Cymru) 2005
- Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005,
- Rheoliadau Gwasanaethau Cefnogi Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2019
- Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019,
- Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygiad) 2020,
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
- Cod Ymarfer - Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019

5.2 Nod y gwasanaeth yw cynnig gwasanaeth mabwysiadu cynhwysfawr yn unol â'r statudau, rheoliadau a safonau gofynnol cenedlaethol uchod ac fel y disgrifir yn nogfennau polisiau a gweithdrefnau a fframwaith perfformiad y gwasanaeth a osodir gan Lywodraeth Cymru.

5.3 Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn ymorol am baneli mabwysiadu ar ran Sir y Fflint/Wreccsam; Conwy/Sir Ddinbych a Gwynedd/Ynys Môn. Mae pob panel yn gwneud argymhellion i'r asiantaeth ar y materion canlynol:

- (a) A ddylai plentyn sydd wedi'i ildio gael ei fabwysiadu
- (b) A yw ymgeiswyr yn addas i fabwysiadu
- (d) A ddylid rhoi'r plentyn gyda mabwysiadwr/mabwysiadwyr penodol

5.4 Mae'r gwasanaeth yn anelu at ddarparu amryw o wasanaethau, naill ai'n uniongyrchol neu ar y cyd ag asiantaethau addas eraill, i blant sydd angen sefydlogrwydd trwy fabwysiadu, ac i recriwtio, hyfforddi ac asesu darpar fabwysiadwyr a pharu plant yn ofalus â mabwysiadwyr a fyddai yn diwallu eu hanghenion.

5.5 Mae'r gwasanaeth yn ymroddedig i ddefnyddio gwerthoedd a safonau ansawdd tebyg ar draws pob math o fabwysiadu: domestig, mabwysiadu ag elfen dramor, a phartner rhiant.

Bydd y gwasanaeth yn sicrhau bod gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion a aseswyd a'u bod yn cael eu cyflawni mewn modd amserol ac effeithlon ar ôl hynny.

5.7 Nod y gwasanaeth yw darparu ystod o wasanaethau i gefnogi mabwysiadwyr a'u plant ar ôl iddynt fabwysiadu.

5.8 Bydd y gwasanaeth yn galluogi teuluoedd biolegol i gael mynediad at gefnogaeth briodol a/neu wasanaeth cwnsela.

- 5.9 Mae'r gwasanaeth yn anelu at ddarparu gwasanaeth cwnsela, mynediad at gofnodion a Gwasanaeth Cyfryngol i oedolion sydd wedi'u mabwysiadu.

Mae gan y gwasanaeth amrywiaeth o wybodaeth y gellir ei weld ar ei wefan ac mae ar gael i bawb a effeithir gan fabwysiadu.

[www.northwalesadoption.gov.uk](http://www.northwalesadoption.gov.uk)

neu ffoniwch rif rhadffôn Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru: 0800 783 0618

## 6.0 Gwerthoedd

6.1 Mae'r gwerthoedd canlynol yn sylfaen i bolisiau a gweithdrefnau'r gwasanaeth:

- Mae gan blant hawl i dyfu yn rhan o deulu cariadus sy'n gallu diwallu eu hanghenion yn ystod plentyndod a thu hwnt.
- Mae'n well i blant gael eu magu gan eu teulu biolegol lle bo hynny'n bosibl.
- Mae lles, diogelwch ac anghenion plentyn yn ganolbwynt i'r broses fabwysiadu.
- Gwneir pob ymdrech i ofyn i'r plentyn beth yw ei ddymuniadau a'i deimladau ac mae'r rhain yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn llawn ym mhob cam o'r broses.
- Gall oedi mewn mabwysiadu gael effaith ddifrifol ar iechyd a datblygiad plant a cheisir osgoi hynny lle bo'n bosibl.
- Caiff tarddiad ethnig, cefndir diwylliannol, crefydd ac iaith plant eu cydnabod yn gyfan gwbl a'u gwerthfawrogi a'u hyrwyddo'n gadarnhaol pan wneir penderfyniadau; gan ddilyn egwyddorion Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Hawliau Dynol 1998 a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
- Caiff anghenion penodol plant anabl eu cydnabod yn gyfan gwbl a'u cymryd i ystyriaeth pan wneir penderfyniadau.
- Gwerthfawrogir a pherchir rôl rhieni sy'n mabwysiadu ac yn cynnig teulu parhaol i blentyn sy'n methu â byw gyda'i deulu biolegol.
- Mae mabwysiadu yn arwain at oblygiadau i bawb dan sylw am oes ac mae angen ymrwymiad oes gan nifer o wahanol sefydliadau, proffesiynau ac unigolion sy'n gorfod cydweithio i ddiwallu anghenion y rheiny a effeithir gan fabwysiadu.

## 7.0 Statws a Chyfansoddiad

7.1 Mae pob asiantaeth fabwysiadu unigol o fewn Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn rhan o'i Chyngor Sir berthnasol.

## 8.0 Partneriaethau Asiantaethau Mabwysiadu

- Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
- Adoption UK
- Y pedwar gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol arall
- AFA Cymru
- Coram/BAAF
- Cofrestr Fabwysiadu Cymru
- Asiantaethau Mabwysiadu Cofrestredig e.e. Barnados; Cymdeithas Plant Dewi Sant ac ati
- Timau Gwasanaethau Plant
- Timau Maethu
- Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc - (CAMHS)
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Ysgolion a GWE - Gwasanaeth Effeithlonrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru

## 9.0 Monitro ac Adolygu

9.1 Yn unol â Rhannau 9 i 12 o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019, mae'r gwasanaeth wedi gwneud trefniadau addas i adolygu yn rheolaidd a monitro yn barhaus ansawdd y gwasanaethau mabwysiadu a ddarperir.

9.2 Arolygu Digonolrwydd Adnoddau (Rheoliad 33)

- Bydd Arweinydd y Gwasanaeth yn sicrhau bod Adroddiad Blynyddol ac Adolygiad Ansawdd Gofal, ynghyd ag adroddiadau perfformiad ddwywaith y flwyddyn, yn cael eu darparu i Fwrdd Partneriaeth Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru.
- Bydd Arweinydd y Gwasanaeth yn sicrhau bod systemau a phrosesau digonol mewn lle i ddarparu gwybodaeth am unrhyw feysydd y dylid eu harsylwi/ystyried yn fanylach a/neu eu gwella. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:
  - trosiant staff;
  - lefelau salwch staff;
  - cwynion;
  - materion yn ymwneud â diogelu;
  - adroddiadau archwilio gan reoleiddiwr y gwasanaeth,
  - canlyniadau archwiliadau a/neu adroddiadau gan Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r gwasanaeth tân.
- Bydd Arweinydd y Gwasanaeth yn sicrhau bod trefniadau addas mewn lle i rybuddio uwch swyddogion perthnasol ar unwaith pan:

- nad yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau;
- mae'r gwasanaeth yn methu â datrys neu fynd i'r afael â materion a godwyd mewn adroddiadau archwilio; a
- mae'r gwasanaeth yn darparu gwasanaeth sydd heb ei gynnwys yn y datganiad o ddiben.

### 9.3 Adroddiadau eraill (Rheoliad 34)

- Mae gan Arweinydd y Gwasanaeth system mewn lle i gyflwyno adroddiadau i Bennaeth y Gwasanaethau Plant / Prif Swyddog Diogelu a Chefnogi neu swyddog cyfatebol ym mhob awdurdod lleol partner sy'n adlewyrchu'n gywir ansawdd a pherfformiad cyffredinol y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys trefniadau i Arweinydd y Gwasanaeth roi gwybod a chyfathrebu am unrhyw faterion brys sy'n mynnu camau gweithredu ar unwaith gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:
  - marwolaeth sydyn neu anesboniadwy unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth;
  - trychineb naturiol;
  - afreoleidd-dra ariannol;
  - pryderon sylweddol a godwyd gan reoleiddiwr y gwasanaeth neu
  - awdurdod lleol arall; ac
  - unrhyw ddigwyddiadau sy'n effeithio ar argaeledd staff.

### 9.4 Ymgysylltu ag Unigolion ac Eraill (Rheoliad 35)

- Bydd Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn sicrhau bod trefniadau mewn lle i gasglu barn am ansawdd y gefnogaeth a ddarperir a sut y gellir gwella hyn gan:
  - unigolion;
  - unrhyw un o gynrychiolwyr yr unigolion hynny;
  - staff a gyflogir gan y gwasanaeth; ac
  - unrhyw Awdurdod Lleol arall;
  - Arolygiaeth Gofal Cymru ac
  - unrhyw Gyrrff Proffesiynol perthnasol.
- Caiff barn y gwahanol unigolion hyn eu cymryd i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â chynllunio i wella safon y gefnogaeth a ddarperir.

### 9.5 Ansawdd Adolygiadau Gwasanaeth (Rheoliad 39)

- Yn ôl y gofyn ond o leiaf bob 6 mis byddwn yn; asesu, monitro a gwella safon a diogelwch y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:



- coladu a dadansoddi adborth gan yr holl bartïon a restrir o dan rheoliad 35 (uchod);
  - materion a gwersi a ddysgwyd yn y dadansoddiad o gwynion
  - a materion diogelu;
  - patrymau a thueddiadau a nodwyd trwy ddadansoddi hysbysiadau, materion diogelu, pryderon a chwynion rhannu pryderon;
  - canlyniad unrhyw adroddiadau archwilio gan reoleiddwyr;
  - archwiliadau o gofnodion.
- Hefyd byddwn yn sicrhau bod systemau archwilio a phrosesau monitro ac adolygu'r gwasanaeth yn rhoi sicrwydd bod gwasanaeth o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu.
  - Mae trefniadau addas mewn lle i sicrhau bod systemau a phrosesau yn cael eu hadolygu'n barhaus er mwyn galluogi Arweinydd y Gwasanaeth a rheolwyr gweithredol i nodi ble mae neu ble y gallai safon a/neu ddiogelwch gwasanaethau gael eu cyfaddawdu, ac ymateb yn briodol ac yn ddi-oed i gywiro problemau.
  - Sicrhau y gwrandewir ar bob adborth a bod yr adborth yn cael ei gofnodi a'i fod yn derbyn ymateb fel sy'n briodol.
  - Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei dadansoddi a bod argymhellion yn cael eu gwneud i ddarparwr y gwasanaeth ynglŷn â sut a ble y gellid gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaeth.

## 9.6 Mesurau Ychwanegol

- Mae'r gwasanaeth mabwysiadu yn agored i systemau monitro ac adolygu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a'r holl Gyngorau Sir. Defnyddir prosesau archwilio mewnol yn ogystal ag archwiliadau rheoli a'r polisi goruchwylio staff. Mae polisiau pob Cyngor ynghylch archwiliad ariannol, adnoddau dynol a materion cyllidebol yn berthnasol i'r gwasanaeth mabwysiadu.
- Mae gan bob aelod o staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth mabwysiadu contract goruchwylio ac maent yn derbyn goruchwyliaeth o leiaf bob mis.
- Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Plant / Prif Swyddog Diogelu a Chefnogi neu swyddog cyfatebol yn comisiynu adroddiadau rheolaidd mewn perthynas â gweithrediad y gwasanaeth ac yn

adolygu'r adroddiadau gydag aelodau eraill o'u Tîm Rheoli Adrannol a Bwrdd Partneriaeth Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru.

- Darperir adroddiad blynyddol am y gwasanaeth mabwysiadu i aelodau etholedig ac aelodau o baneli mabwysiadu, sy'n rhoi manylion y canlyniadau a gyflawnwyd a chynigion ar gyfer datblygiadau newydd mewn gwasanaethau.
- Caiff data perfformiad ei gasglu a'i ddychwelyd i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru fel rhan o adroddiadau dangosyddion perfformiad y gwasanaeth cyfan.
- Caiff adroddiad perfformiad bob chwe mis ac Adroddiad Blynyddol ac Adolygiad o Ansawdd Gofal eu cyflwyno a'u harchwilio gan Fwrdd Partneriaeth Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru. Gellir darparu'r adroddiadau hyn i Bwyllgorau Craffu bob Awdurdod Lleol, ac i aelodau o bob Cyd-Banel Mabwysiadu ledled Gogledd Cymru.
- Mae unrhyw wasanaethau mabwysiadu sy'n cael eu comisiynu neu eu contractio allan yn dilyn gweithdrefnau comisiynu neu gontractio a chytundebau lefel gwasanaeth Cyngor yr Awdurdod Cynnal (Wrecsam).

#### 9.7 Polisïau a Gweithdrefnau

- a) Caiff y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer recriwtio, paratoi, asesu, cymeradwyo a chefnogi mabwysiadwyr eu hadolygu yn rheolaidd wrth i ddeddfwriaeth a rheoliadau newydd gael eu cyflwyno.
- b) Darperir gwybodaeth ysgrifenedig yn amlinellu'r broses i bob aelod o'r cyhoedd sy'n holi ynglŷn â bod yn ddarpar fabwysiadwyr.
- c) Mae gweithdrefnau'r panel mabwysiadu yn cael eu dosbarthu i bob aelod panel.
- d) Caiff polisïau ac ymarferion cefnogi mabwysiadu eu hadolygu a'u diweddarau yn rheolaidd wrth i ddeddfwriaeth a rheoliadau newydd gael eu cyflwyno.

## 10.0 **Gwasanaethau i Blant**

10.1 Mae pob Awdurdod Lleol yng Ngwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn gyfrifol am y gwaith o baratoi plant ar gyfer mabwysiadu. Ar ôl i Benderfynwr yr Asiantaeth gadarnhau statws plentyn fel 'dylai gael ei fabwysiadu', caiff ei atgyfeirio i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru at ddibenion paru. Bydd gweithwyr cymdeithasol gofal plant a gweithwyr cymdeithasol mabwysiadu yng Ngwasanaeth Mabwysiadu

Gogledd Cymru yn cydweithio er mwyn canfod rhieni addas i fabwysiadu a chefnogi'r broses gyflwyno.

#### 10.2 Paratoi Plentyn ar gyfer Mabwysiadu

10.3 Mae pob asiantaeth unigol o fewn Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn cydnabod pwysigrwydd paratoi plentyn ar gyfer mabwysiadu. Mae'r broses yn cynnwys gweithiwr cymdeithasol y plentyn, y gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu, gofalwyr maeth, gweithwyr proffesiynol y gwasanaeth iechyd, athrawon ac aelodau o'r teulu biolegol, a gall y rhain i gyd weithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol neu gael cyswllt â'r plentyn yn ystod y cyfnod paratoi. Bydd y gwasanaeth yn cefnogi gwaith yr holl bartïon dan sylw i gynllunio a pharatoi trwy:

- a) Ddyrannu gweithiwr cymdeithasol sydd â chymwysterau a phrofiad addas.
- b) Lleihau oedi ar ôl i fabwysiadu gael ei nodi fel cynllun sefydlogrwydd ar gyfer y plentyn (i fod yn barod erbyn ail Adolygiad Statudol Plentyn sy'n Derbyngofal – 4 mis mewn lleoliad).
- c) Asesu'r angen am wasanaethau cymorth mabwysiadu ar gyfer y plentyn a'r teulu mabwysiadu

10.4 Bydd yr asiantaeth unigol o fewn Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn cynorthwyo plentyn i ddeall y rhesymau dros dderbyn gofal a pham na all ddychwelyd i fyw gyda'i deulu biolegol. Mae pob plentyn sy'n cael cynllun sefydlogrwydd o fabwysiadu yn derbyn deunydd darllen perthnasol a chopi o'r canllaw i blant sy'n berthnasol i'w hoedran.

10.5 Bwriad y wybodaeth yw hysbysu plant am y broses fabwysiadu o'r cychwyn i'r diwedd mewn iaith hawdd ei deall.

10.6 Lle bo hynny'n briodol, mae'n bosibl y bydd plant yn cael gwybodaeth am ddarpar fabwysiadwyr sydd wedi'u nodi ar eu cyfer. Gall y wybodaeth hon gael ei rhoi ar ffurf ffotograffau neu recordiadau DVD.

10.7 I blant sy'n ddigon hen i ddeall, caiff gwasanaeth cwnsela ei ddarparu ar ffurf ac mewn iaith sy'n eu galluogi i ddeall yn glir y wybodaeth a ddarperir a thrafod unrhyw faterion sy'n codi o hynny. Bydd y gwasanaeth cwnsela yn arbennig o sensitif i ethnigrwydd a chredoau crefyddol y plentyn.

10.8 Bydd pob plentyn sy'n ddigon hen ac sydd â dealltwriaeth ar lefel ddigonol yn cael eu hannog i fynychu a rhannu eu barn a'u safbwyntiau yn y cyfarfodydd adolygu i blant sy'n derbyn gofal. Caiff eu dymuniadau a'u teimladau eu cynnwys yn Adroddiad Asesu'r Plentyn ar gyfer Mabwysiadu a gyflwynir i'r panel Mabwysiadu hefyd.

10.9 Darperir gwybodaeth am hanes bywyd y plentyn trwy gyfrwng llyfrau stori bywyd, sy'n atgyfnerthu ymdeimlad y plentyn o'i hunaniaeth a'i

ddealltwriaeth o'i dreftadaeth wrth iddo/iddi dyfu.

#### 10.10 Canfod Teuluoedd a Pharu

10.11 Mae plant sydd wedi'u hatgyfeirio i'w mabwysiadu neu sy'n destun llwybr deuol yn derbyn gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu dyranedig o Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru a fydd yn ymgymryd â'r dasg o ganfod teulu.

10.12 Mae'r Weithdrefn Canfod Teuluoedd a Pharu fel y ganlyn:

- (a) Caiff y gwasanaeth ei hysbysu o unrhyw blentyn sy'n debygol o gael ei fabwysiadu y syth ar ôl adolygiad plentyn sy'n derbyn gofal sy'n cymeradwyo'r cynllun i fabwysiadu.
- (b) Unwaith y bydd y penderfyniad wedi'i gadarnhau 'y dylid mabwysiadu', bydd y gweithiwr cymdeithasol gofal plant yn atgyfeirio i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru a bydd chwiliad yn cael ei gynnal o'r gronfa ddata o fabwysiadwyr cymeradwy er mwyn nodi unrhyw fabwysiadwyr posibl.
- (c) Caiff gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu ei ddyrannu gan Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru i ymgymryd â gweithgareddau canfod teulu.
- (d) Bydd gweithiwr cymdeithasol y plentyn a'r gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu yn cydweithio i nodi teuluoedd i'w hystyried ar gyfer y plentyn ac i gynnal ymweliadau ar y cyd â darpar fabwysiadwyr
- (e) Caiff un teulu ei ddewis i'w baru gyda'r plentyn mewn cyfarfod paru.
- (f) Bydd y panel yn nodi a chymeradwyo rhieni mabwysiadu sy'n addas i'w paru cyn pen 6 mis ar ôl i'r asiantaeth gytuno y dylai'r plentyn gael ei fabwysiadu, oni bai bod yr amserlen hon yn amodol ar ffactorau allanol megis achos llys neu faterion cymhleth o ran paru.
- (g) Cyfeirir pob plentyn at Gofrestr Fabwysiadu Cymru cyn pen mis ar ôl i'r panel wneud argymhelliad ac ar ôl i'r asiantaeth gymeradwyo eu cynllun mabwysiadu, os nad ydynt wedi cael eu lleoli neu os na cheisir paru yn lleol. Mewn rhai achosion caiff plant eu hatgyfeirio ar unwaith yn dibynnu ar anghenion penodol y plentyn/plant.

10.13 Mae gan y gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu nifer o gyfrifoldebau allweddol:

- (a) Gweithio ar y cyd â'r gweithiwr cymdeithasol gofal plant i ddatblygu darlun clir o anghenion penodol y plentyn fel bo modd ceisio canfod teulu priodol.
- (b) Mynd ati yn rhagweithiol i nodi cymaint ag sy'n bosibl o deuluoedd addas posibl i'w paru.
- (c) Gweithio ar y cyd â gweithiwr cymdeithasol y plentyn i gyflwyno unrhyw bariad arfaethedig i'r panel mabwysiadu.

10.14 Bydd yr asiantaeth unigol o fewn Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn edrych ar y posibilrwydd o roi plant yng ngofal teuluoedd mabwysiadu yn ardal gogledd Cymru os yw hynny er budd pennaf y plentyn. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i rai plant gael eu lleoli y tu allan i'w cymunedau gwreiddiol er eu lles a'u diogelwch.

10.15 Bydd pob plentyn yn cael ei gofrestru ar Gofrestr Mabwysiadu Cymru ac yn cael ei atgyfeirio os na ellir paru'r plentyn â theulu yn lleol neu'n rhanbarthol ar ôl mis.

#### 10.16 Diogelu'r Plentyn

- Mae Amddiffyn Plant yr un mor berthnasol yn y broses o leoli plant gyda theuluoedd, gan gynnwys teuluoedd mabwysiadu.
- Mae'n rhaid i blant sy'n byw oddi cartref gael yr un lefel o amddiffyniad â phlant sy'n byw gyda'u teuluoedd eu hunain.
- Gall plant sy'n cael eu mabwysiadu fod yn arbennig o ddi-amddiffyn ac mae ganddynt yr un anghenion a hawliau diogelu â phob plentyn arall. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd y gofynion diogelu, ymweld ac adolygu.
- Mae'n hanfodol bod plant sy'n cael eu mabwysiadu yn cael eu diogelu, eu monitro a'u hadolygu a bod eu darpar fabwysiadwyr yn cael gafael ar gyngor a chefnogaeth.

#### 10.17 Darparu Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu

10.18 Ar ôl i'r Gorchymyn Mabwysiadu gael ei wneud ac yn dibynnu ar ei anghenion asesedig, gall plentyn dderbyn gwybodaeth anuniongyrchol am ei deulu naturiol drwy gyfrwng system gysylltu Blwch Llythyrau y gwasanaeth. Mae'r holl drefniadau Blwch Llythyrau a wneir yn canolbwyntio ar y plentyn ac mae'n rhaid iddyn nhw fod er budd pennaf y plentyn. Anogir mabwysiadwyr a rhieni biolegol i ddeall, pan fydd plentyn hŷn yn dweud nad yw'n dymuno parhau i gyfnewid gwybodaeth, mae'n rhaid i'w dymuniadau gael eu parchu. Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn arolygu'r system a caiff gwybodaeth ei throsglwyddo rhwng aelodau o'r teulu biolegol (gan gynnwys brodyr a chwiorydd) a'r plant neu'r mabwysiadwyr sy'n gweithredu ar ran y plant. Mae manylion y math o wybodaeth a gyfnewidir, yn ogystal â pha mor aml, yn cael eu nodi mewn cytundeb

ysgrifenedig sy'n cael ei lofnodi gan bob parti a disgwylir i bawb dan sylw gadw ato.

10.19 Rhoddir cymorth i aelodau o'r teulu biolegol i ysgrifennu llythyrau i'w rhoi ar ffeil y plentyn a fabwysiedir. Os nad yw'r rhiant biolegol yn dymuno i weithiwr cymdeithasol yr awdurdod lleol ymgymryd â'r dasg hon gyda nhw, caiff atgyfeiriad ei wneud i'r asiantaeth mwyaf priodol, h.y. CAMHS, Canolfannau Teuluoedd, DEWIS, Seicolegydd Addysg.

10.20 Mae'r asiantaethau unigol o fewn Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn darparu cymorth mabwysiadu yn unol â Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2019. Caiff anghenion y plentyn am wasanaethau cymorth mabwysiadu eu hasesu ar wahanol gamau yn y broses fabwysiadu. Sef:

- Pan fo'r asiantaeth unigol yng Ngwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn ystyried a ddylai'r plentyn gael ei fabwysiadu.
- Pan gynnigir bod y plentyn yn cael ei roi i ddarpar fabwysiadwyr penodol.
- Pan adolygir lleoliad mabwysiadu'r plentyn.
- Os bydd gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn cael eu darparu ar fwy nag un achlysur ac os nad ydynt yn gyfyngedig i ddarparu cyngor a gwybodaeth yn unig, caiff cynllun cymorth mabwysiadu ei gynhyrchu a'i adolygu yn flynyddol neu cyn hynny os yw'r amgylchiadau wedi newid yn sylweddol.
- Lle bo hynny'n briodol, caiff ei wneud mewn ymgynghoriad â gwasanaethau megis addysg neu iechyd.
- Prif nod darpariaeth y gwasanaethau cymorth mabwysiadu yw hyrwyddo llwyddiant lleoliadau mabwysiadu. Os bydd lleoliadau mabwysiadu dan fygythiad o gael eu amharu, cynhelir cyfarfod cyn gynted ag sy'n bosibl i adolygu'r cymorth a ddarperir i'r lleoliad, er mwyn atal methiant yn y lleoliad mabwysiadu. Os yw'r lleoliad yn methu, cynhelir cyfarfod amhariad er mwyn deall y ffactorau sy'n effeithio ar y canlyniad ac i helpu i gynllunio ar gyfer lleoliad mabwysiadu yn y dyfodol.

## **11.0 Recriwtio, cymeradwyo, hyfforddi, cefnogi ac adolygu mabwysiadwyr.**

### 11.1 Recriwtio

11.2 Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn ymwybodol o natur ddemograffig gyfnewidiol yr ardal leol ac mae'n croesawu ceisiadau gan ddarpar rieni mabwysiadu waeth beth fo'u rhyw, rhywioldeb, statws priodasol, hil, crefydd, anabledd, diwylliant neu statws cyflogaeth. Wrth

ddiwallu anghenion plant unigol, mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn cydnabod yr angen i ddarparu amrywiaeth a dewis amrywiol o rieni mabwysiadu.

- 11.3 Bydd Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn datblygu amrywiaeth o ddeunyddiau recriwtio ac yn trefnu digwyddiadau hyrwyddo lleol yn ogystal â chymryd rhan mewn ymgyrchoedd cenedlaethol yn y rhanbarth.
- 11.4 Croesawir ceisiadau gan unrhyw un sydd dros 21 oed a bydd pawb sy'n holi yn derbyn ymateb personol gan swyddog recriwtio penodol. Lle bo hynny'n bosibl, anfonir taflen wybodaeth a ffurflen ymateb cyn pen 5 diwrnod (cyn pen 24 awr fel arfer os yw hynny'n bosibl) a gwneir cyswllt pellach ar ôl derbyn y ffurflen ymateb wedi'i llenwi rhwng 7 ac 14 diwrnod.
- 11.5 Ar ôl derbyn y ffurflen ymateb, bydd swyddog recriwtio neu weithiwr cymdeithasol mabwysiadu yn trefnu ymweliad dechreuol â'r darpar fabwysiadwr/fabwysiadwyr cyn gynted ag sy'n ymarferol resymol. Bwriad yr ymweliad hwn yw darparu gwybodaeth bellach i'r darpar fabwysiadwyr a'u teuluoedd am yr hyn y mae mabwysiadu yn ei olygu, cynnal cyfweiliad dechreuol ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gan ddarpar fabwysiadwyr ar y cam hwn.
- 11.6 Mae gwybodaeth bellach am fod yn rhiant mabwysiadu, gan gynnwys canllaw cam wrth gam, ar gael ar wefan **[www.northwalesadoption.gov.uk/](http://www.northwalesadoption.gov.uk/)** neu drwy ffonio Rhadffôn Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru: **0800 783 0618**
- 11.7 Asesu a Chymeradwyo
- 11.8 Mae'r asesiad ar gyfer bod yn fabwysiadwr cymeradwy yn broses dau gam a gynhelir gan weithwyr cymdeithasol mabwysiadu Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru ac mae'n dilyn y camau canlynol:
- 11.9 Gwiriadau diogelu
- Mae gofyn i ymgeiswyr gwblhau ffurflen gais ar gyfer ymholiadau uwch gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Hefyd, gofynnir am gydsyniad ysgrifenedig er mwyn caniatáu i nifer o wiriadau gael eu gwneud ag asiantaethau eraill, gan gynnwys yr NSPCC, y Gwasanaeth Prawf, Awdurdodau Lleol, Gwasanaethau Iechyd, AGC ac unrhyw asiantaeth statudol arall sy'n berthnasol i'r teulu penodol.
  - Bydd tystysgrifau geni, priodas ac ysgariad yn cael eu gweld yn ogystal ag unrhyw basbort neu drwydded yrru er mwyn gwirio hunaniaeth yr ymgeisydd.
  - Caiff hanes cyflogaeth yr ymgeisydd ei wirio.
  - Gofynnir am enwau a chyfeiriadau 4 o ganolwyr a fydd yn cael cais i ddarparu geirdaon ysgrifenedig. Ymwelir ag o leiaf 3 o'r canolwyr

hynny a dim ond un o'r canolwyr all fod yn aelod o deulu'r ymgeiswyr.

- Os oes gan yr Ymgeisydd/Ymgeiswyr blant oedran cyn ysgol neu oedran ysgol, cysylltir â'r Ymwelydd Iechyd neu'r Pennaeth Ysgol perthnasol.
- Os yw'r ymgeisydd/ymgeiswyr mewn cyflogaeth, gofynnir am eiradaon gan eu cyflogwr
- Os yw'r ymgeisydd / ymgeiswyr wedi bod mewn perthynas flaenorol, cysylltir â phartneriaid blaenorol

#### 11.10 Hyfforddiant Paratoadol

- Gofynnir i ymgeiswyr fynychu cwrs hyfforddiant paratoadol. Os yw cyplau'n gwneud cais, disgwylir i'r ddau bartner fynychu. Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn defnyddio'r rhaglen hyfforddiant Paratoi i Fabwysiadu a argymhellir gan Gymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain (BAAF). Mae grwpiau hyfforddiant paratoadol yn cael eu cynnal gan wahanol asiantaethau o leiaf chwe gwaith y flwyddyn. Cynhelir hyfforddiant dros dri diwrnod a'r prif bynciau a gwmpesir yw:
  - Gweithdrefnau'r asiantaeth fabwysiadu o ran asesu darpar fabwysiadwyr a lleoli plentyn i'w fabwysiadu
  - Y broses fabwysiadu a chymeradwyo gan gynnwys y weithdrefn gyfreithiol sy'n ymwneud â lleoli plentyn i'w fabwysiadu
  - Arwyddocâd a goblygiadau cyfreithiol mabwysiadu ar gyfer y plentyn a'r teulu biolegol
  - Cyswllt rhwng y plentyn a'i rieni biolegol neu berthnasau
  - Y plant y mae angen eu mabwysiadu gan gynnwys ystod oedran, rhyw ac anghenion a chefnidiroedd tebygol.
  - Diogelu'r plentyn
  - Materion hunaniaeth a chyswllt
  - Ymlyniad
  - Y sgiliau sy'n angenrheidiol i fod yn rhiant mabwysiadu
  - Gwasanaethau cymorth mabwysiadu
  - Deall ymlyniad a gwytnwch oedolion
  - Agweddau rhwng siroedd, os yw hynny'n berthnasol.
  - Rôl y Panel Adolygu Annibynnol
- Mae rhiant mabwysiadu a chynrychiolwyr o asiantaethau partner yn mynychu er mwyn cynorthwyo'r rheiny sy'n cymryd rhan yn yr hyfforddiant a'r asesiad er mwyn ateb cwestiynau darpar rieni mabwysiadu.
- Darperir hyfforddiant hefyd i deulu a ffrindiau'r ymgeiswyr a dderbynnir i'r broses.

#### 11.11 Astudiaeth Cartref



- Gan ddefnyddio fformat Adroddiad y Darpar Fabwysiadwr, bydd y gweithiwr cymdeithasol sy'n cynnal yr asesiad yn archwilio beth yw cymhelliant yr ymgeiswyr a'u dealltwriaeth o fabwysiadu, eu hagweddu, disgwyliadau a ffordd o fyw, gweithgareddau hamdden a diddordebau, tarddiad hiliol, cefndir diwylliannol a ieithyddol a dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â chamwahaniaethu. Rhoddir ystyriaeth hefyd i'r cyfleusterau cymunedol a hygyrchedd gwasanaethau addysg ac iechyd.
- Gofynnir i ymgeiswyr hefyd gwblhau llyfr gwaith a gyflwynir i'r Panel Mabwysiadu yn y cam cymeradwyo.

### 11.12 Cymeradwyaeth

- Ar ôl cwblhau'r broses asesu yn llwyddiannus, cyflwynir adroddiad i'r panel mabwysiadu am argymhelliad ynghylch 'addasrwydd i fabwysiadu' y darpar fabwysiadwyr. Bydd ymgeiswyr wedi cael cyfle o flaen llaw i ddarllen a rhoi sylwadau am yr adroddiad gorffenedig i'r panel, ac fe'u gwahoddir i fynychu'r Panel yn bersonol.
- Mae'r rhan fwyaf o aelodau'r Panel Maethu, gan gynnwys y Cadeirydd, yn annibynnol ar yr asiantaethau mabwysiadu a Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru ac yn gweithredu mewn rôl sicrhau ansawdd er mwyn gofalu bod safonau priodol yn cael eu cynnal.
- Yn dilyn argymhelliad gan y panel mabwysiadu, mae'r penderfyniad terfynol ynghylch cymeradwyo yn cael ei ystyried gan benderfynwr perthnasol yr asiantaeth. Mae'r penderfyniad yn cael ei ddarparu ar lafar ac yn ysgrifenedig wedyn i'r darpar fabwysiadwyr yn unol â'r amserlenni rhagnodedig (fel arfer cyn pen 24 awr ar lafar, gyda chadarnhad ysgrifenedig y diwrnod gwaith canlynol).
- Mae mabwysiadwyr yn cael eu cymeradwyo yn gyffredinol; fodd bynnag dylai'r asesiad adlewyrchu cryfderau, amgylchiadau, ymrwymadau a'r llety sydd gan fabwysiadwyr ar gael. Gellir addasu hyn yn yr adolygiad blynyddol i adlewyrchu unrhyw newid mewn amgylchiadau a phrofiad.
- Bydd pob rhiant cymeradwy sy'n aros am leoliadau yn cael adolygiad o'u cymeradwyaeth yn flynyddol o leiaf, yn unol â'r gofynion rheoliadol o dan Reoliad 30 o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005. Prif nod yr adolygiad yw pennu a yw'r darpar fabwysiadwyr yn parhau yn 'addas i fabwysiadu', a chymryd i ystyriaeth unrhyw newid mewn amgylchiadau.
- Dylai'r panel mabwysiadu ystyried yr adroddiad adolygu a gwneud argymhellion i benderfynwr yr asiantaeth.

### 11.13 Apêl

- Mae'r gweithdrefnau cwyno neu apelio yn berthnasol i unrhyw un sy'n teimlo nad ydynt wedi cael eu trin yn deg neu eu bod wedi cael eu camddehongli yn y broses asesu neu gymeradwyo. Gall ymgeiswyr gael mynediad at Weithdrefn Gwynion Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar ddiwedd Cam Un y broses asesu. Dim ond ar ddiwedd Cam Dau y gall Ymgeiswyr gael mynediad at broses yr Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau.

### 11.14 Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu

- Bydd mabwysiadwyr cymeradwy yn cael cefnogaeth o'r pwynt pan gyflwynir y plentyn iddynt nes bo Gorchymyn Mabwysiadu wedi'i wneud ac ar ôl hynny hefyd yn ôl yr angen. Bydd asesiad o anghenion cymorth y teulu yn cael ei gynnal gan yr awdurdod lleoli a byddant yn cael cynnig gwasanaethau cymorth i ddiwallu'r anghenion asesedig hynny a fydd yn cael eu hadolygu'n flynyddol neu cyn hynny os yw'r amgylchiadau yn newid yn sylweddol.
- Bydd y gweithiwr cymdeithasol gofal plant yn ymweld bob wythnos â mabwysiadwyr sy'n gofalu am blentyn tan yr adolygiad cyntaf. Ar ôl hynny bydd yr ymweliadau yn unol ag argymhellion yr adolygiad, ond o leiaf bob 4 wythnos, nes bo'r Gorchymyn Mabwysiadu wedi'i wneud (Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achos (Cymru) 2015). Bydd ymweliadau ychwanegol yn cael eu cynnal pan fo mabwysiadwyr yn cael eu hystyried ar gyfer plant neu pan fyddant yn mynd trwy'r weithdrefn baru.
- Ar ôl i blentyn fod mewn lleoliad mabwysiadu am ddeg wythnos, gellir gwneud cais am Orchymyn Mabwysiadu. Bydd y llys yn gwneud trefniadau ar gyfer Gwrandawriad Cyfeiriadau Cyntaf lle bydd yr holl gamau gweithredu perthnasol yn cael eu manylu a bydd y gweithwyr cymdeithasol mabwysiadu yn cynorthwyo mabwysiadwyr trwy'r broses hon.
- Yn unol â gofynion rheoliadol, mae gan bob asiantaeth Gyngorwr enwebedig ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu.

## 12.0 Y Panel Mabwysiadu

12.1 Mae cyfansoddiad, cylch gorchwyl a swyddogaethau paneli mabwysiadu'r asiantaethau unigol yng Ngwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn cael eu gosod allan yn:

- Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005
- Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygiad) 2020

12.2 Mae'r panel mabwysiadu yn gorff o bobl sydd â'r grym i ystyried ac argymhell wrth yr asiantaeth:

- Y dylai plentyn sydd wedi'i ildio gael ei fabwysiadu
- Mae darpar fabwysiadwr yn addas i fod yn rhiant mabwysiadu
- Byddai darpar fabwysiadwr yn rhiant addas i blentyn penodol (mae hyn yn cynnwys mabwysiadu gydag elfen dramor).

12.3 Caiff argymhelliad y panel ei atgyfeirio i benderfynwr yr asiantaeth a fydd yn penderfynu p'un a ddylid ardystio argymhelliad y panel ai peidio. Dylai penderfynwr yr asiantaeth wneud penderfyniad ynglŷn ag argymhellion y panel cyn pen 7 diwrnod gwaith ar ôl cyfarfod y panel. Mae gofyn i'r asiantaeth hysbysu'r unigolyn/unigolion perthnasol (rhiant biolegol neu warcheidwad mewn perthynas â chynllun arfaethedig i fabwysiadu plentyn; darpar fabwysiadwr mewn perthynas ag ystyried a ydynt yn addas i fabwysiadu; rhiant biolegol neu warcheidwad y plentyn a darpar fabwysiadwr mewn perthynas ag argymhelliad paru) yn ysgrifenedig. Bydd gweithiwr cymdeithasol y plentyn yn rhannu'r wybodaeth gyda'r plentyn mewn modd sy'n addas i'w oedran.

12.4 Mae paneli asiantaethau unigol yn cynnwys dim mwy na 10 aelod, (cyd-banel dim mwy na 11 aelod) gan gynnwys:

- Dau weithiwr cymdeithasol a gyflogir gan bob asiantaeth, sydd ag o leiaf tair blynedd o brofiad ôl-gymhwyso perthnasol yr un mewn gwaith cymdeithasol gofal plant, gan gynnwys profiad uniongyrchol o waith mabwysiadu;
- Y Cadeirydd Annibynnol;
- Yr unigolyn sydd wedi'i enwebu fel Cynghorwr Meddygol i bob asiantaeth. Gall y Cynghorwr Meddygol enwebu dirprwy yn ei (h)absenoldeb a fydd hefyd yn aelod o'r panel sy'n cael pleidleisio;
- O leiaf tri unigolyn annibynnol arall, nad ydynt yn cael eu cyflogi gan yr asiantaeth. (Gall hyn gynnwys o leiaf 2 unigolyn sydd â phrofiad personol o fabwysiadu e.e. mabwysiadwr neu berson dros 18 oed sydd wedi'i fabwysiadu, ac arbenigwr mewn addysg neu iechyd meddwl plant a phobl ifanc);
- Gall aelodau eraill gynnwys rhiant biolegol plentyn sy'n cael ei roi i'w fabwysiadu;
- Mae cynghorwr cyfreithiol a chynghorwr yr asiantaeth i'r panel hefyd yn mynychu cyfarfodydd y panel;

- Cyngorydd etholedig, o gyngor pob asiantaeth (opsiynol / fel ymarfer da).

- 12.5 Mae gwiriadau DBS yn cael eu cynnal ar bob aelod o'r panel. Mae gan asiantaethau unigol o fewn Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru ganllawiau mewn lle yn ymwneud â gwrthdaro buddiannau posibl (personol a phroffesiynol) i sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu trin yn deg. Os yw aelodau o'r panel yn adnabod yr ymgeiswyr yn bersonol neu i'r gwrthwyneb, gellir hysbysu aelodau'r panel o flaen llaw er mwyn sicrhau bod trefniadau wrth gefn yn cael eu gwneud gan gynnwys sicrhau bod yr aelod yn mynd allan o'r ystafell pan drafodir yr asesiad hwnnw.
- 12.6 Rhoddir adroddiadau bob chwe mis i aelodau'r panel am weithgareddau mabwysiadu'r asiantaeth. Maent hefyd yn derbyn papurau a gwybodaeth berthnasol yn rheolaidd i'w galluogi i gyfrannu at ffurfio polisi ac ymarfer mewn perthynas â mabwysiadu. Caiff problemau ymarfer sy'n codi o drafodaethau'r panel eu hystyried a chytunir ar gamau gweithredu i hyrwyddo gwell ymarfer.

### **13.0 Mabwysiadu ag Efen Dramor**

- 13.1 Bydd y gwasanaeth a ddarperir yn cydweddu â gofynion statudol a safonau a chodau ymarfer a gydnabyddir yn genedlaethol.
- 13.2 Bydd Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn darparu gwasanaeth cwnsela a chyngor dechreuol a fydd yn galluogi darpar ymgeiswyr i ddeall y broses o fabwysiadu plentyn o dramor a dod i benderfyniad ar sail gwybodaeth ynglŷn â p'un a ddylent fwrw ymlaen â'u cais. Rhoddir mynediad i ddarpar fabwysiadwyr i'r Ganolfan Mabwysiadu Trawswladol (IAC) er mwyn cael hyfforddiant a gwybodaeth ychwanegol ac arweiniad am y broses mewn gwledydd unigol.
- 13.3 Os bydd y darpar fabwysiadwr yn gofyn i gael ei asesu gan Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru bydd y gwasanaeth yn cwblhau adroddiad astudio cartref yn ôl y gofyn er mwyn cymeradwyo'r darpar fabwysiadwr, gan gynnwys asesiad o'u hanghenion cymorth i fabwysiadu. Codir tâl am y gwasanaeth hwn.
- 13.4 Mae darpar fabwysiadwyr rhwng gwledydd yn mynd trwy'r un hyfforddiant paratoadol â mabwysiadwyr domestig, ond rhoddir gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â materion diwylliannol a'r fframwaith deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â mabwysiadu rhwng gwledydd trwy IAC. Bydd costau amrywiol yn cael eu codi ar y mabwysiadwyr yn dibynnu ar y wlad dan sylw. Hysbysir darpar fabwysiadwyr hefyd o'r meini prawf penodol neu weithdrefnau perthnasol mewn gwahanol wledydd.

- 13.5 Cyn y gall ymgeiswyr fynd ymlaen i dderbyn plentyn i'w gofal, mae'n rhaid iddyn nhw gael eu cymeradwyo fel rhiant/rhieni mabwysiadu addas. Mae angen hysbysiad gan Lywodraeth Cymru hefyd yn cadarnhau eu bod wedi cael eu hasesu a'u cymeradwyo ac y bydd y plentyn yn cael ei awdurdodi i fyw yn barhaol ar Ynysoedd Prydain os rhoddir cliriad mynediad ac os gwneir Gorchymyn Mabwysiadu.
- 13.6 Pan hysbysir yr Awdurdod Lleol bod y plentyn wedi cyrraedd y DU a bod y darpar fabwysiadwr yn bwriadu gwneud cais am orchymyn mabwysiadu, penodir gweithiwr cymdeithasol ar gyfer y plentyn a gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol ar gyfer y darpar fabwysiadwr i gynnal ymweliadau statudol ac adolygiadau gofynnol.

## **14.0 Gofalwyr Maeth sy'n dymuno Mabwysiadu**

- 14.1 Mae gan ofalwyr maeth sy'n gwneud cais ffurfiol i fabwysiadu plant yn eu gofal hawl i'r un wybodaeth a pharatoadau â darpar fabwysiadwyr eraill.
- 14.2 Os yw'r plentyn wedi bod yn byw gyda'r gofalwyr maeth am lai na deuddeg mis byddant yn cael eu hasesu yn yr un ffordd ag unrhyw ddarpar fabwysiadwyr eraill. Fodd bynnag, bydd yr asesiad yn canolbwyntio ar anghenion hirdymor penodol y plentyn dan sylw. Rhai o'r prif faterion i'w cymryd i ystyriaeth yw:
- Ansawdd yr ymlyniad rhwng y plentyn a'r gofalwyr maeth.
  - Dymuniadau a theimladau'r plentyn.
  - A oes mabwysiadwyr eraill ar gael neu'n debygol o fod ar gael i'r plentyn.
- 14.3 Os yw'r plentyn wedi bod yng ngofal gofalwyr maeth am 12 mis neu fwy gallant wneud cais uniongyrchol preifat i'r llys a bydd yn mynd yn syth i Gam Dau y broses asesu, a fydd yn cymryd oddeutu pedwar mis yn unol ag amserlenni Safonau Mabwysiadu Cymru.

## **15.0 Partner y Rhiant**

- 15.1 Os oes rhiant biolegol mewn perthynas newydd lle mae'r partner yn dymuno mabwysiadu plentyn y rhiant biolegol, bydd yr asiantaeth mabwysiadu yn cwnsela'r teulu am y broses ac yn cynghori p'un a fyddai gorchymyn cyfreithiol arall yn fwy priodol. Ar ôl rhoi 3 mis o rybudd i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru, gall Partner y Rhiant wneud cais uniongyrchol i'r llys a caiff adroddiad ei gwblhau gan Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn unol ag amserlenni Safonau Mabwysiadu Cymru.

## 16.0 Gwasanaethau i Deuluoedd Biolegol

16.1 Mae'r asiantaethau unigol o fewn Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn ymroddedig i sicrhau yr ymgynghorir yn gyfan gwbl â rhieni biolegol ynglŷn â chynlluniau gofal eu plant. Fel rhan o'u hymrwymiad i gynnwys rhieni biolegol yn y broses fabwysiadu, gwahoddir pob rhiant biolegol i adolygiadau sy'n ymwneud â'u plant. Os bwriedir mabwysiadu, rhoddir gwybodaeth ysgrifenedig iddynt am beth mae mabwysiadu yn ei olygu. Rhoddir cyfle hefyd i rieni biolegol ddarllen beth a ysgrifennir amdanynt yn Adroddiad Asesu'r Plentyn i'w Fabwysiadu ac fe'u hanogir i fynegi eu barn am y bwriad i fabwysiadu.

16.2 Anogir aelodau'r teulu biolegol i ddarparu gwybodaeth sydd ei hangen ar y plentyn a fabwysiedir. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys gwybodaeth am enedigaeth a bywyd cynnar y plentyn a fabwysiedir, hanes teuluol, barn y teulu biolegol am y mabwysiadu a gwybodaeth gyswllt a gwybodaeth gyfredol am eu hunain a'u sefyllfa. Caiff llythyrau agored gan y teulu biolegol eu cadw ar ffeil fabwysiadu'r plentyn hefyd fel bo modd i'r plentyn a fabwysiedir gael mynediad atynt os ydynt yn dymuno.

### 16.3 Cwmsela Rhieni Biolegol

- Bydd rhieni biolegol unrhyw blentyn sy'n cael ei fabwysiadu trwy asiantaeth yng Ngwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn cael cynnig:
  - Gwasanaeth cwnsela, cyngor a gwybodaeth mewn perthynas â'r mabwysiadu
  - Cymorth mewn perthynas â chysylltu â'r plentyn a fabwysiedir
  - Gwasanaethau Cyfryngu (Gweler adran 17.0 am fwy o wybodaeth)
  - Cynigir cymorth hefyd i aelodau o'r teulu biolegol ynglŷn â threfniadau cysylltu trwy Gydlynnydd Cysylltu Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru.

### 16.4 Babanod sy'n cael eu Hildio

- Ar rai achlysuron bydd rhieni yn dewis rhoi plentyn i'w fabwysiadu yn wirfoddol. Mae'r asiantaethau unigol yng Ngwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn cydnabod bod yn rhaid trin sefyllfaoedd fel hyn mewn modd hynod sensitif. Nid yw ildio plentyn i'w fabwysiadu yn benderfyniad hawdd i'r fam na'r tad biolegol.
- Cynhelir asesiad cychwynnol gan y tîm gofal plant perthnasol a fydd yn archwilio'r holl opsiynau sydd ar gael, ar y cyd â'r gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu o Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru.

## 17.0 Gwasanaethau Cyfryngu

- 17.1 Mae Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yn cydnabod anghenion oedolion sydd wedi'u mabwysiadu, rhieni biolegol a perthnasau sydd am gael cyfle i geisio gwybodaeth bellach neu gysylltu gyda'u teuluoedd biolegol neu blentyn sydd wedi'i fabwysiadu a rhoi gwybod iddyn nhw eu bod yn dymuno cysylltu.
- 17.2 Nid oes gan berthnasau biolegol hawl i gael unrhyw wybodaeth a allai ddatgelu hunaniaeth yr oedolyn a fabwysiadwyd. Fodd bynnag, mae gan berthnasau biolegol hawl gyfreithiol i ofyn am 'wasanaeth cyfryngu' er mwyn derbyn gwasanaethau gan gynnwys cwnsela, cymorth a chyingor, gwybodaeth a chwilio.
- 17.3 Mae cyfryngwr yn unigolyn neu sefydliad sy'n sefyll rhwng dau unigolyn neu fwy. O ran mabwysiadu, gall unigolyn sy'n gweithredu fel cyfryngwr gysylltu â'r unigolyn a fabwysiadwyd ar ran y perthynas biolegol.

## 18.0 Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu

- 18.1 Yn unol â gofynion rheoliadol, mae gan yr asiantaeth Gyngorwr enwebedig ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu. Mae'n ofynnol yn unol â'r gyfraith i Awdurdodau Lleol ddarparu amryw o wasanaethau cymorth mabwysiadu i ddiwallu anghenion pobl a effeithir gan fabwysiadu. Gall y bobl hyn gynnwys:
- plant sydd wedi'u mabwysiadu neu blant y bwriedir eu mabwysiadu
  - oedolion sydd wedi'u mabwysiadu
  - darpar Fabwysiadwr/Fabwysiadwyr a rhieni sy'n mabwysiadu plant dan 18 oed
  - llysblant neu blant biolegol rhieni sy'n mabwysiadu; a
  - rhieni a pherthnasau biolegol, gan gynnwys brodyr a chwiorydd (llawn neu hanner) y plentyn a fabwysiedir neu bobl eraill y mae gan y plentyn berthynas bwysig â nhw, o ran eu hangen am gymorth i gefnogi trefniadau cysylltu.
- 18.2 Gellir gwneud cais am asesiad o anghenion cymorth mabwysiadu ar unrhyw adeg trwy gysylltu â'r Asiantaeth Mabwysiadu.
- 18.3 Gall y gwasanaethau cymorth mabwysiadu gynnwys:
- cymorth ariannol er mwyn cefnogi Lleoliad Mabwysiadu
  - gwasanaethau i alluogi grwpiau o blant sydd wedi'u mabwysiadu, rhieni sy'n mabwysiadu a rhieni biolegol neu

gyn warcheidwaid plentyn sydd wedi'i fabwysiadu, i drafod materion yn ymwneud â mabwysiadu

- cymorth, gan gynnwys gwasanaethau cyfryngu, mewn perthynas â chyswllt rhwng plentyn sydd wedi'i fabwysiadu a rhiant biolegol, brodyr a chwiorydd biolegol, cyn warcheidwad neu berthynas megis modryb, ewythr neu nain a taid i'r plentyn a fabwysiadwyd (boed yn perthyn trwy waed, hanner gwaed neu trwy briodas)
- amrywiaeth o wasanaethau therapiwtig i blant sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn sicrhau bod y berthynas rhwng plentyn wedi'i fabwysiadu a'u rhiant mabwysiadu yn parhau, gan gynnwys hyfforddiant a chefnogaeth i rieni sy'n mabwysiadu i ddiwallu anghenion arbennig y plentyn
- cymorth lle bo amhariad mewn lleoliad neu drefniant mabwysiadu ar ôl i orchymyn mabwysiadu gael ei wneud, neu os oes perygl i hynny ddigwydd, gan wneud trefniadau i ddarparu gwasanaethau cyfryngu a threfnu a rhedeg cyfarfodydd i drafod amhariadau; a
- cwnsela, cyngor a gwybodaeth.

#### 18.4 Gwasanaethau i Oedolion a Fabwysiadwyd

18.5 Mae'r asiantaethau unigol yng Ngwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn darparu gwasanaeth i oedolion a fabwysiadwyd fel a ganlyn:

- Mabwysiadu Cyn Cychwyn
- Mae gofyn i bobl a fabwysiadwyd cyn 12 Tachwedd 1975 weld cwnselydd cyn y gellir rhoi mynediad iddynt at eu cofnodion geni.
- Gall pobl a fabwysiadwyd ar ôl 11 Tachwedd 1975 ddewis a hoffent weld cwnselydd cyn iddynt gael gwybodaeth a fydd yn eu harwain at eu cofnodion geni.
- Ar ôl gweld cwnselydd (os yw'n berthnasol), caiff oedolion a fabwysiadwyd eu cynorthwyo i gael mynediad at wybodaeth am eu cofnodion geni.
- Pwrpas y gwasanaeth cwnsela yw sicrhau bod yr unigolyn a fabwysiadwyd wedi ystyried yr effaith bosibl y gall unrhyw ymholiadau ei gael arno ef/arni hi ei hun ac eraill. Mae'n bwysig bod y wybodaeth a geisir, ac y mae gan yr unigolyn a fabwysiadwyd hawl cyfreithiol iddi, yn cael ei darparu mewn modd sensitif a phriodol.



## 18.6 Mabwysiadu Cyn Cychwyn

- Unwaith y bydd yr unigolyn sydd wedi'i fabwysiadu yn 18 oed, mae ganddo/ganddi hawl i dderbyn y wybodaeth ganlynol gan yr asiantaeth fabwysiadu:
  - Copi o'u tystysgrif geni
  - Y wybodaeth wreiddiol o Adroddiad Asesu'r Plentyn ar gyfer Mabwysiadu a baratowyd ar gyfer y panel mabwysiadu.
  - Copi o ddogfennau'r llys yn ymwneud â mabwysiadu nad ydynt yn cynnwys gwybodaeth a ddiogelwyd e.e. ffurflen gais, y Gorchymyn Mabwysiadu, gwarcheidwad ac adroddiadau awdurdodau lleol.
- Rhoddir gwybodaeth ysgrifenedig i'r unigolyn a fabwysiadwyd ynglŷn ag unrhyw wasanaeth cwnsela sydd ar gael ond nid yw'n ofynnol iddo/iddi yn gyfreithiol dderbyn y gwasanaeth hwn cyn derbyn y wybodaeth a geisiwyd.

## 19.0 **Sylwadau a Chwynion**

- 19.1 Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru wedi mabwysiadu Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n rhoi pwyslais ar ddatrys cwynion yn gynnar. Os na ellir datrys cwyn yn gyflym ac er boddhad yr achwynydd, gellir cychwyn "ail gam" ffurfiol y broses, sy'n cynnwys ymchwiliad gan ymchwilydd annibynnol. Os yw'r achwynydd yn dal i fod yn anfodlon mae'n rhaid eu hysbysu o'u hawl i uwchgyfeirio eu cwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- 19.2 Caiff pob cwyn am Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru eu monitro gan y Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid yn Wrecsam sydd ar gael trwy ffonio (rhadffôn) 0800 587 6708 a bydd yn cysylltu gyda'u swyddogion cyfatebol mewn asiantaethau eraill sy'n aelodau.

## 20.0 **Adolygiad Annibynnol o Benderfyniad**

- 20.1 Os yw'r asiantaeth yn credu nad yw'r darpar fabwysiadw(y)r yn addas i fabwysiadu plentyn, mae gofyn i'r asiantaeth anfon hysbysiad ysgrifenedig atynt yn datgan nad yw'r asiantaeth yn bwriadu eu cymeradwyo. Mae hwn yn "ddyfarniad o gymhwyster". Mae'r hysbysiad hwn yn rhoi 20 diwrnod i ymateb naill ai trwy gyflwyno unrhyw sylwadau i'r asiantaeth neu trwy wneud cais i'r Panel Adolygu Annibynnol, a gydlynir gan Lywodraeth Cymru.

## 21.0 Rôl Arolygiaeth Gofal Cymru

21.1 Amlinellir rôl Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o ran asiantaethau mabwysiadu yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA). Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith rheoleiddio sy'n cwmpasu, ymysg materion eraill; rheoli staff, safleoedd ac ymddygiad asiantaethau gofal cymdeithasol. Bydd yr Arolygiaeth yn monitro perfformiad awdurdodau lleol wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002.

- Swyddfa leol Arolygiaeth Gofal Cymru yw:

AGC Rhanbarth Gogledd Cymru,  
Adeiladau'r Llywodraeth,  
Sarn Mynach,  
Cyffordd Llandudno  
LL31 9RZ

**Rhif ffôn:** 0300 062 5032

**Ffacs:** 0300 062 5030

**E-bost:** [ciw@gov.wales](mailto:ciw@gov.wales)

## 22.0 MANYLION CYSWLLT

### **Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru**

3ydd Llawr, Stryd y Lampint, Wrecsam, LL11 1AR

Ffoniwch: 01978 295311 neu fffoniwch y rhif Rhadffôn: 0800 085 0774

Ewch i'n gwefan: [northwalesadopts.gov.uk](http://northwalesadopts.gov.uk)

### **Manylion cyswllt Asiantaethau Mabwysiadu sy'n aelodau o Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru**

#### **(a) Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam:-**

Pennaeth Gwasanaethau Plant

3ydd Llawr, Stryd y Lampint, Wrecsam, LL11 1AR

Rhif Ffôn: 01978 292000

#### **(b) Cyngor Sir y Fflint:-**

Pennaeth Gwasanaethau Plant

Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, Sir y Fflint, CH5 3FF

Rhif Ffôn: 01352 701313

#### **(c) Cyngor Sir Ddinbych:-**

Prif Reolwr – Gwasanaethau Plant

Tŷ Russell, Ffordd Churton, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 3DP.

Rhif Ffôn: 01824 712800

#### **(d) Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:-**

Pennaeth Gwasanaethau Plant

Coed Pella, Conway Road, Bae Colwyn, Conwy, LL29 7AZ

Rhif Ffôn: 01492 574000

#### **(e) Cyngor Sir Gwynedd:-**

Pennaeth Gwasanaethau Plant a Chefnogi Teuluoedd

Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

Rhif Ffôn: 01286 679228

#### **(f) Cyngor Sir Ynys Môn:-**


Pennaeth Gwasanaethau Plant

Swyddfeydd y Cyngor Sir, Llangedfni, Ynys Môn, LL77 7TW

Rhif Ffôn: 01248 752708

**23.0 Strwythur Sefydliadol**

**ARWEINYDD GWASANAETH  
 Mabwysiadu Gogledd Cymru**



- 2 Weithiwr Cymdeithasol 0.6
- 4 Gweithiwr Cymdeithasol FTE
- 1 Gweithiwr Cymdeithasol RhA
- 3 Gweinyddwr 0.8
- 1 Swyddog Marchnata a Recriwtio FTE
- 1 Swyddog Hyfforddiant FTE
- 1 Swyddog Cymorth Hyfforddiant 0.6
- 1 Gweithiwr Cymorth Therapiwtig i Deuluoedd FTE

- 4 Gweithiwr Cymdeithasol FTE
  - 1 Gweithiwr Gweinyddol 18.5
  - 1 Gweithiwr Cymdeithasol Gwasanaethau Cyfryngu FTE
  - 1 x Gweithiwr Cymdeithasol Gwasanaethau Cyfryngu Sesiynol
  - 1 Cydlynnydd TESSA FTE
  - 1 Cydlynnydd Gwasanaeth Pobl Ifanc 0.5
  - 1 Gweithiwr Cymorth Therapiwtig i Deuluoedd FTE
  - 1 Gweithiwr Cymorth Therapiwtig i Deuluoedd RhA
  - 1 Cwnselydd Sesiynol RhA
- \*Sylwch, er bod Gweithwyr Cymorth Therapiwtig i Deuluoedd yn gweithio ar draws gogledd Cymru, eu rheolwr atebol a'u goruchwylydd yw Rheolwr Tîm Conwy / Sir Ddinbych**

- 3 Gweithiwr Cymdeithasol FTE
- 1 Gweithiwr Gweinyddol 18.5
- 1 Cydlynnydd Gwaith Cymdeithasol Siwrnai Bywyd
- 1.4 Cydlynwyr Cyswllt
- 1 Gweinyddwr Cydlynwyr Cyswllt 0.6
- 1 Gweithiwr Cymdeithasol ASSA FTE
- 1 Gweithiwr Cymorth Therapiwtig i Deuluoedd FTE

## 24.0 Staff

- Mae'r aelodau canlynol o staff yn cael eu cyflogi neu wedi'u secondio i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru:

Swydd	Cymhareb Staff
<b>Arweinydd Gwasanaeth</b>	<b>1</b>
<b>Rheolwr Gweithredol</b>	<b>3</b>
<b>Gweithwyr Cymdeithasol</b>	<b>14</b>
<b>Cynghorwr Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu</b>	<b>1</b>
<b>Cwnselydd Sesiynol</b>	<b>1</b>
<b>Gweithwyr Cymorth Therapiwtig i Deuluoedd</b>	<b>3.6</b>
<b>Cydlynnydd Gwasanaeth Therapiwtig, Addysg a Chymorth Mabwysiadu</b>	<b>1</b>
<b>Cydlynnydd Gwasanaethau Pobl Ifanc</b>	<b>0.5</b>
<b>Cynghorwr Cymorth Siwrnai Bywyd</b>	<b>1</b>
<b>Cyllid a Chymorth Gweinyddol</b>	<b>1</b>
<b>Swyddog Recriwtio</b>	<b>1</b>
<b>Swyddog Hyfforddi</b>	<b>1</b>
<b>Swyddog Cefnogi Hyfforddiant</b>	<b>0.6</b>
<b>Cydlynnydd Cyswllt</b>	<b>1.6</b>
<b>Gweithiwr Cymdeithasol Cyfryngu</b>	<b>1</b>
<b>Gweinyddwyr</b>	<b>4.25</b>
<b>Cymorth TG</b>	<b>0.5</b>

- Fel yr holl staff gwaith cymdeithasol arall, mae gan yr Arweinydd Gwasanaeth a'r rheolwyr gymhwyster proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol, a phrofiad helaeth mewn gwaith awdurdodau lleol. Disgwylir i bob gweithiwr cymdeithasol ymgymryd â hyfforddiant ôl-gymhwyso ac fe'u hanogir i ennill gwobr Ôl-gymhwyso mewn Gwaith Cymdeithasol, gan gynnwys Addysgu Ymarfer.
- Mae gan swyddi arbenigol fel Gweithwyr Cymorth Therapiwtig i Deuluoedd, TESSA, Cydlynnydd Siwrnai Bywyd a Chydlynnydd Cyswllt gymwysterau gofal plant perthnasol (o leiaf Diploma Lefel 3 / Tystysgrif mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol Plant) ynghyd â phrofiad helaeth o waith awdurdodau lleol. Maent i gyd wedi derbyn hyfforddiant pwrpasol yn eu meysydd ymarfer arbenigol.
- Mae staff cyllid a gweinyddol yn brofiadol mewn amrywiaeth o systemau TG ac mae ganddynt i gyd o leiaf gymwysterau NVQ Lefel 2, gyda rhai yn meddu ar gymwysterau HNC Busnes.
- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn Fuddsoddwr mewn Pobl a disgwylir i'w holl weithwyr ymgymryd â hyfforddiant perthnasol o ganlyniad i arfarniadau bob chwe mis / adolygiadau datblygu.

- Gofynnir i bob aelod o staff sydd â mynediad at blant gael datgeliad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gwiriadau hunaniaeth a chyflogaeth yn ogystal â geirdaon personol wrth gael eu penodi. Bydd gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn deall deddfwriaethau, confensiynau a pholisïau allweddol sy'n ymwneud â phlant a mabwysiadu.
- Bydd gweithwyr cymdeithasol sy'n brofiadol mewn gwaith mabwysiadu yn asesu rhieni mabwysiadu posibl ar gyfer plant ac yn cynhyrchu adroddiadau mabwysiadu. Bydd y rheiny sydd â llai na 3 blynedd o brofiad ôl-gymhwysio yn cael eu goruchwyllo gan Uwch Weithiwr Cymdeithasol neu Reolwr Tîm. Bydd myfyrwyr gwaith cymdeithasol yn cael eu goruchwyllo'n agos gan weithwyr cymdeithasol mabwysiadu cymwys. Bydd gwasanaeth cwnsela ar gyfer cofnodion geni nad yw'n cael ei ddarparu gan After Adoption yn cael ei ddarparu gan weithwyr cymdeithasol cymwys yn unig sydd â hyfforddiant a phrofiad yn y math hwn o gwnsela a gwybodaeth helaeth am y ddeddfwriaeth o amgylch mynediad at gofnodion geni ac effaith aduno ar bawb dan sylw.

## **Awdurdod Cynnal – Strwythur Rheoli Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru**

- **Uwch Bennaeth Gwasanaeth Plant**
  - **Pennaeth Gwasanaeth - Rhianta Corfforaethol**  
Jo Spender (Cynghorwr Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu)  
Yn gyfrifol am fonitro a rheoli Gwasanaethau Maethu a Mabwysiadu
- 

## **Cymwysterau a Phrofiad Staff Mabwysiadu Gogledd Cymru**

### **Stevie Thomas**

Ar secondiad o Gyngor Sir Gwynedd fel Rheolwr Tîm.

Cymhwysais fel gweithiwr cymdeithasol yn 2001 a llwyddais i ennill cymhwyster addysgu ymarfer yn 2005. Rhwng 2001 a 2005 cwblheais PQSW 1,2,3,4,5 a 6 cyn mynd ymlaen i gwblhau Lefel 5 mewn Rheoli. Mae gennyf Ddiploma mewn Ymarfer Niwro Ieithyddol ac rwyf wedi cwblhau hyfforddiant hyfforddi (coaching).

Mae gennyf brofiad o weithio mewn tîm amddiffyn plant, Tîm Plant Sy'n Derbyn Gofal a Thîm Maethu cyn i mi gael secondiad i Dîm Mabwysiadu Gogledd Cymru ym mis Mawrth 2016. Yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf rwyf wedi gweithio yn y sectorau statudol a phreifat. Mae gennyf dros 15 mlynedd o brofiad fel Rheolwr Gwaith Cymdeithasol.

Rwy'n Gyngorwr i Banel Mabwysiadu Gwynedd ac Ynys Môn.

### **Amanda Morris**

Rheolwr Tîm sy'n arwain datblygiad a darpariaeth gwasanaethau cymorth ôl-fabwysiadu. Ar ôl ennill Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol yn 2006 gweithiais ym maes Maethu a Mabwysiadu am 6 mlynedd lle roeddwn yn gyfrifol am asesu a goruchwyllo Gofalwyr Maeth Awdurdodau Lleol. Hefyd, yn y rôl hon enillais brofiad o baru plant gyda theuluoedd mabwysiadu.

Dros y saith mlynedd diwethaf rwyf wedi bod yn rhan o Wasanaeth Therapiwtig o fewn Gwasanaeth Plant Awdurdod Lleol. Fel Uwch Weithiwr Cymdeithasol arweiniais y gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaethau pontio a chymorth mabwysiadu a chwblheais hyfforddiant yn y maes hwn. Mae hyn yn cynnwys Therapi Chwarae (Theraplay) Lefel 2, Dull Rhyngweithio Marschak (MIM), Arweiniad Rhyngweithiol Fideo (VIG), Siwrnai Bywyd, hyfforddiant Seictherapi Datblygiadol Dyadig (DDP) a Hyfforddiant Asesu Brodyr a Chwiorydd.

Mae gennyf brofiad helaeth o weithio gyda phlant a theuluoedd cyn ac ar ôl mabwysiadu, yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio ac yn ystod y cyfnodau

cynnar ar ôl i blant gael eu lleoli gyda'u teuluoedd mabwysiadu. Rwy'n Asesydd Ymarfer cymwys ac rwyf hefyd wedi cyflwyno hyfforddiant i rieni, Gofalwyr Maeth, Teuluoedd sy'n mabwysiadu a chydweithwyr o fewn y Gwasanaeth.

Rwy'n Gynghorwr i Banel Mabwysiadu Conwy a Sir Ddinbych.

### **Sue Coleman**

Rheolwr Tîm sy'n arwain ar Farchnata a Recriwtio, Asesu a Pherfformiad.

Roeddwn yn Swyddog Heddlu am 20 mlynedd, ac am 10 mlynedd o'r cyfnod hwnnw bum yn gweithio yn rhan-amser ym maes Amddiffyn Plant, gan weithio'n rheolaidd ac ar y cyd â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, a thrwy hynny cefais fewnwelediad manwl i'w gwaith. Pan ymddeolais o Wasanaeth yr Heddlu, cafodd fy ngŵr a minnau ein hasesu a'n cymeradwyo i fod yn rhieni mabwysiadu ac i ddilyn hynny cafodd ein mab ei lleoli gyda ni. Roedd yn brofiad mor gadarnhaol ac o ganlyniad i hynny a fy ngwybodaeth am Amddiffyn Plant a Gwaith Cymdeithasol, yn 2002 penderfynais fynychu Coleg NEWI yn Wrecsam i gwblhau Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol, gyda'r bwriad o weithio mewn Gwasanaeth Mabwysiadu yn y pen draw.

Cymhwysais yn 2004 a chefais waith yn syth gyda Thîm Maethu a Mabwysiadu Cyngor Sir Ddinbych, a fy mhrif rôl oedd gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu. Tua'r un amser daethom yn ofalwyr maeth i blentyn perthynas i ni, ac yna cawsom Orchymyn Gwarchodaeth Arbennig ar gyfer y plentyn hwnnw. Mae fy mhlant yn 27 a 22 oed erbyn hyn, ac rwy'n eithriadol o falch ohonyn nhw a phopeth y maent wedi'i gyflawni.

Yn ddiweddarach dois yn Uwch Ymarferydd yn y Tîm Maethu.

Yna dechreuodd Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru, ond tua'r adeg hynny cefais swydd Rheolwr y Gwasanaeth Maethu ac felly daliais i weithio i Sir Ddinbych. Rwyf wastad wedi dymuno gorffen fy mywyd gwaith ym maes Mabwysiadu, gan ei fod yn faes yr wyf yn teimlo'n angerddol amdano. Ar ôl gweld plant o gefndiroedd sydd yn aml yn anodd iawn yn cael eu rhoi yn y system ofal, ac o weld eu siwrneiau trwy'r broses fabwysiadu neu faethu hirdymor, teimlaf yn freintiedig iawn fy mod wedi cael adnabod a gweithio ochr yn ochr â rhieni sy'n mabwysiadu a gofalwyr maeth anhygoel yn ystod fy mywyd, ac rwyf wedi gweld gyda fy llygaid fy hun sut y gall bywyd plentyn gael ei drawsnewid. Ni allaf feddwl am well cyflawniad mewn bywyd na hynny.

Rwy'n gyffrous am fy rôl a gobeithiaf allu helpu Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru i fynd o nerth i nerth.

Rwy'n Gynghorwr i Banel Wrecsam a Sir y Fflint.

### **Sara Williams**

Rwy'n Weithiwr Cymdeithasol llawn amser, ar secondiad o Gyngor Sir Gwynedd i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru. Rwy'n cynnal



asesiadau o ddarpar fabwysiadwyr, darparu cymorth mabwysiadu a chanfod teuluoedd i blant, gan baru plant gyda theuluoedd mabwysiadu.

Profiad – mae gennyf 16 mlynedd o brofiad o weithio yng Ngwasanaeth Plant a Theuluoedd Gwynedd.

Cymhwyster – Mae gennyf BA (Anrh) mewn Gwaith Cymdeithasol o Brifysgol Bangor 2009.

### **Lisa Jenkins**

Rwy'n Weithiwr Cymdeithasol a gyflogir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar secondiad i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru. Rwy'n cynnal asesiadau o ddarpar fabwysiadwyr, cynnig cymorth mabwysiadu a dod o hyd i deuluoedd i blant a atgyfeirir i'r gwasanaeth.

Rwy'n weithiwr cymdeithasol cymwys sydd wedi ennill BA (Anrh) mewn Gwaith Cymdeithasol yn 2012 o Brifysgol Glyndŵr. Rwyf wedi cofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru a llwyddais i gyflawni'r cymhwyster Ôl-gymhwyso i Weithwyr Cymdeithasol yn 2014. Roeddwn yn cael fy nghyflogi gan Gyngor Sir Ddinbych o fis Medi 2012 tan fis Ionawr 2017, yn y Gwasanaeth Derbyn ac Ymyrraeth.

Fy mhrif gyfrifoldebau oedd ffurfio a meithrin perthynas waith â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r plant. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod plant diamddiffyn yn cael eu diogelu'n briodol, ac yn cael gofal gan deuluoedd parhaol, sefydlog, diogel a chariadus.

### **Samantha Humphreys**

Rwy'n Weithiwr Cymdeithasol a gyflogir gan Gyngor Sir y Fflint a secondiwyd i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru. Rwy'n cynnal asesiadau o ddarpar fabwysiadwyr (domestig a rhwng siroedd), cynnig cymorth mabwysiadu a dod o hyd i deuluoedd i blant a atgyfeirir i'r Gwasanaeth.

Cymwysterau / Profiad – BA(Anrh) Addysg Gynradd gyda Statws Athro Cymwysedig, PGDip Gwaith Cymdeithasol. Rwyf wedi gweithio gyda phlant a theuluoedd dros y ddwy flynedd ar bymtheg ddiwethaf mewn amryw o swyddi gan gynnwys cefnogi teuluoedd, gweithiwr cymorth pontio (oedolion), gweithiwr prosiect gofalwyr ifanc, gweithiwr y blynyddoedd cynnar, cydlynedd cyfarfodydd a gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu.

### **Marjorie Davis**

Gweithiwr Cymdeithasol – rwy'n cael fy nghyflogi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac rwyf wedi bod yn gweithio fel Gweithiwr Cymdeithasol Mabwysiadu gyda Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru ers mis Mai 2018. Yn y rôl hon rwy'n cynnal asesiadau o ddarpar fabwysiadwyr, canfod teuluoedd i blant a atgyfeirir i'r gwasanaeth a chynnig cymorth mabwysiadu. Rwyf wedi bod yn Weithiwr Cymdeithasol cymwys ers sawl blwyddyn ac wedi ennill BA mewn Astudiaethau Cymdeithasol Cymhwysol a CQSW. Mae gennyf hefyd Ddiploma Ôl-Gymhwyso mewn Gwaith Cymdeithasol.

Cyn fy swydd bresennol roeddwn yn cael fy nghyflogi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn y Gwasanaethau Plant. Gweithiais ym maes Amddiffyn Plant, y Tîm Cefnogi Plant ac roeddwn yn Weithiwr Cymdeithasol yn y Tîm Maethu am 5 mlynedd. Fy swydd olaf cyn ymuno â'r Tîm Mabwysiadu oedd Gweithiwr Cymdeithasol yn y Tîm Diogelu a Chyfreithiol o fis Gorffennaf 2009 tan mis Mai 2018.

Rwyf wedi bod yn aelod o Banel Mabwysiadu Conwy ac rwyf ar hyn o bryd yn Aelod Gwaith Cymdeithasol o Banel Maethu Conwy a Sir Ddinbych.

### **Helen Kinney**

Rwy'n Weithiwr Cymdeithasol a gyflogir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Rwy'n cynnal asesiadau o ddarpar fabwysiadwyr, cynnig cymorth mabwysiadu a dod o hyd i deuluoedd i blant a atgyfeirir i'r gwasanaeth. Mae gennyf Ddiploma mewn Gwaith Cymdeithasol ac rwyf wedi cofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru. Mae gennyf brofiad o weithio ym maes Amddiffyn Plant, gyda Phlant sy'n Derbyn Gofal, Plant mewn Angen a gwaith Llys. Mae gennyf Dystysgrif Rheoli Cyflwyniadol NEBS.

### **Tracy Ennis Roberts**

Rwy'n Uwch Weithiwr Cymdeithasol (ar secondiad o Gyngor Sir Ddinbych) i'r Gwasanaeth Mabwysiadu. Rwy'n cynnal asesiadau o ddarpar fabwysiadwyr, darparu cymorth ôl-fabwysiadu a chymryd rhan mewn hyfforddiant i ddarpar fabwysiadwyr. Mae fy swydd hefyd yn cynnwys canfod teuluoedd i blant. Mae gennyf gymwysterau DipSW a PQ1. Gweithiais am 3 blynedd fel Gweithiwr Cymdeithasol Addysg, 7 mlynedd yn y Gwasanaeth Maethu fel Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol ac rwyf wedi gweithio ym maes Mabwysiadu ers 2008. Mae gennyf hefyd D32, Gwobr Asesydd D33 NVQ, ILM Iefel 3, Level 1 DDP ac mae gennyf gymhwyster Addysgu Ymarfer. Am 8 mis rwyf wedi bod yn darparu cymorth rheoli yng Ngwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru, nes i reolwr newydd gael ei benodi.

### **Shirley Viney**

Mae gennyf gymhwyster BA Anrh ac rwy'n weithiwr cymdeithasol cofrestredig yn gweithio yng Ngwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru. Mae gennyf dystysgrifau ôl-gymhwyso mewn gwaith cymdeithasol gan gynnwys cymwysterau Ymarferydd Profiadol ac Asesydd Ymarfer. Mae fy mhrofiad yn ymwneud yn bennaf â phlant a theuluoedd.

### **Nicola Kernighan**

Fel Gweithiwr Cymdeithasol (ar secondiad o Gyngor Sir y Fflint) rwyf wedi bod yn aelod o Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru ers 10 mlynedd. Rwy'n cynnal asesiadau o ddarpar fabwysiadwyr, cynnig cymorth mabwysiadu a chanfod teuluoedd i blant Sir y Fflint. Gradd Baglor mewn Gwaith Cymdeithasol, Cum Laude. Mae gennyf ddwy flynedd ar hugain o brofiad mewn gwaith cymdeithasol gan gynnwys Plant sy'n Derbyn Gofal, iechyd meddwl, anabledd a lles mewn addysg.

**Lesley Davies**

Gweithiwr Cymdeithasol a gyflogir gan Gyngor Sir y Fflint. Rwy'n arbenigo mewn mabwysiadu ac mae gennyf brofiad helaeth yn y Gwasanaethau Plant, gan gynnwys lechyd ac Anabledd Plant. Cymhwyster CQSW.

**Kathryn Edwards**

Fy enw i yw Kathryn Edwards ac rwy'n Weithiwr Cymdeithasol cofrestredig gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Cymhwysais yn 2012 ar ôl ennill gradd mewn Gwaith Cymdeithasol o Brifysgol Bangor. Rwyf wedi cael fy nghyflogi gan awdurdodau lleol Conwy a Sir Ddinbych, gan weithio yn y timau Plant Sy'n Derbyn Gofal ac Amddiffyn Plant, cyn ymuno â Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru.

**Jemma Matthews**

Cymhwysais gyda gradd Meistr mewn Gwaith Cymdeithasol ym mis Tachwedd 2018. Rwyf wedi cwblhau fy Mlwyddyn a Asesir ac a Gefnogir mewn Ymarfer ac wedi mynd ymlaen i fod yn Weithiwr Cymdeithasol Profiadol yn y Tîm Amddiffyn Plant gyda Chyngor Bwrdeistref Halton. Yn ystod y cyfnod hwn rwyf wedi ennill profiad o weithio gyda Phlant mewn Angen, Amddiffyn Plant, Achosion Gofal a Phlant mewn Gofal. Mae gennyf brofiad hefyd o weithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd mewn Tîm Maethu Annibynnol, Cartref Plant Preswyl, Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd a Dargedir, ac elusennau gan gynnwys Barnardo's, NSPCC a'r Sefydliad ADHD.

**Gillian Williams**

Cydlynnydd Cyswllt i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru sy'n goruchwylio cyswllt uniongyrchol ac anuniongyrchol i blant a phobl ifanc sy'n cael eu mabwysiadu. Rwyf wedi gweithio fel Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd i Gyngor Wrecsam ers 14 mlynedd. Gweithiais i'r Tîm Anabledd Plant am 8 mlynedd a'r Tîm Atal a Chefnogi gan gynnal cyswllt dan oruchwyliaeth mewn llysoedd am 6 mlynedd. Mae gennyf NVQ Lefel 3 mewn Plant a Phobl Ifanc ac rwy'n Gwnselydd cymwys sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn.

**Philippa Havill**

Penodwyd i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru ym mis Mai 2020 fel Gweithiwr Cymorth Therapiwtig. Rwy'n gweithio yn therapiwtig gyda rhieni sy'n mabwysiadu, plant a phobl ifanc i gefnogi datblygiad perthnasoedd ag ymlyniad cadarnhaol. Rwy'n helpu teuluoedd i ymdopi â chyfnodau pontio trwy gydol siwrnai bywyd plentyn a hyrwyddo'r canlyniadau gorau posibl i blant a phobl ifanc sy'n cael eu mabwysiadu.

Mae gennyf dros 25 mlynedd o brofiad mewn gwaith cymdeithasol ac ymarfer therapiwtig, gan weithio'n arbennig gyda phlant diamddiffyn, pobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr mewn lleoliadau statudol ac anstatudol, gan gynnwys gwaith i'r Gwasanaeth lechyd ac elusennau plant mawr. Rwyf wedi gweithio'n therapiwtig gydag ystod eang o faterion mewn gwasanaethau ymyrryd yn gynnar ac atal a gyda phlant ar ymyl gofal a phlant sy'n derbyn gofal. Dros y 10 mlynedd diwethaf o fy ngyrfa rwyf wedi arbenigo mewn gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi cael trawma datblygiadol.

Yn ogystal â'r CQSW, rwyf wedi cwblhau hyfforddiant DDP Lefel 1 a 2 ac mae gennyf drwydded i gynnal y Cyfweiliad Arddull Ymlyniad. Mae gennyf hefyd ddiploma mewn Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar Ddatrysiadau ac rwyf wedi cwblhau'r flwyddyn sylfaen mewn Therapi Systemig.

### **Jackie Lloyd**

Fy enw i yw Jackie Lloyd ac rwyf yn Weithiwr Cymdeithasol Ôl-Fabwysiadu gyda Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru. Rwyf wedi gweithio ym meysydd maethu a mabwysiadu ers dros 20 mlynedd yn y sectorau Statudol, Gwirfoddol ac Annibynnol ledled Gogledd Cymru a Gogledd-Orllewin Lloegr ac yn ddiweddar dychwelais i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru, fel Gweithiwr Cymdeithasol Ôl-Fabwysiadu ym mis Mawrth 2020.

Mae fy swydd fel Gweithiwr Cymdeithasol Cyfryngu Ôl-Fabwysiadu yn rhoi boddhad mawr i mi ac mae'n cynnwys gweithio gydag oedolion sydd wedi'u mabwysiadu ac sy'n dymuno cael mynediad at eu ffeiliau mabwysiadu a chael gwybodaeth am hanes eu teulu biolegol cynnar, mae llawer ohonynt yn mynd ymlaen i gyfarfod a meithrin perthynas ag aelodau o'u teulu biolegol. Rwyf hefyd yn gweithio gydag aelodau o deuluoedd biolegol sy'n dymuno olrhain rhywun y maent wedi'i golli trwy fabwysiadu yn y gorffennol, efallai mab, merch neu frawd neu chwaer. Mae fy rôl hefyd yn cynnwys gweithio gyda rhieni biolegol a neiniau a theidiau presennol sydd wedi colli eu plant ar ôl mabwysiadu, gan gynnig gwasanaeth cwnsela, cymorth parhaus a gwaith grŵp.

Yn y blynyddoedd diwethaf rwyf hefyd wedi gweithio gyda phlant sydd wedi'u mabwysiadu a'u teuluoedd, gan gefnogi lleoliadau mabwysiadu a rhieni sy'n mabwysiadu i ymdopi ag ymddygiadau trwy ddarparu ymyraethau Therapi Chwarae (Theraplay) a thrwy raglenni sy'n seiliedig ar ymlyniad. Rwyf wedi gweithio fel Uwch Ymarferydd, Hyfforddwr Maethu a Mabwysiadu, Aelod Panel a Gweithiwr Cymdeithasol Therapiwtig Plant.

Mae gennyf y Cymwysterau canlynol: Diploma mewn Ieuencid a Chymuned, Diploma mewn Lleoli Teuluoedd, Diploma mewn Cwnsela, Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol, Diploma Uwch mewn Cofnodi Profiadau Bywyd Therapiwtig a 'Theraplay'.

### **Denise Roberts**

Fel Swyddog Hyfforddiant Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru rwy'n gyfrifol am nodi, trefnu, hwyluso a gwerthuso hyfforddiant sy'n ymwneud â mabwysiadu ar draws y chwech awdurdod yng ngogledd Cymru. Mae hyn yn cynnwys anghenion hyfforddiant Gweithwyr Cymdeithasol Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru, Aelodau'r Panel Mabwysiadu, Gweithwyr Cymdeithasol Gofal Plant, Darpar Fabwysiadwyr a Mabwysiadwyr Cymeradwy. Rwy'n Weithiwr Cymdeithasol cymwys sydd â 24 mlynedd o brofiad ar ôl ymarfer mewn Maethu a Mabwysiadu dros y 19 mlynedd diwethaf. Lefel 1 a 2 DDP, Diploma Mewn Rhianta Therapiwtig a Theraplay Lefel 1 a 2.

**Alaw Jones**

Swyddog Marchnata a Recriwtio i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru. Fy rôl i yw estyn allan i ddarpar fabwysiadwyr, ymateb i ymholiadau a chynnal ymweliadau dechreuol.

Graddiais gyda 2.1 mewn Astudiaethau Plentynod, a chwblheais Ddiploma Ôl-raddedig mewn Dwyieithrwydd.

Rwy'n fabwysiadwr fy hun a mabwysiadais fy merch trwy Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru. Cefais fy ysbrydoli gan fy mhrofiad cadarnhaol gyda Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru i newid fy ngyrfa o fod yn Gynorthwy-ydd Meithrinfa i weithio i'r Gwasanaeth.

**Carole Langford**

Rheolwr Cymorth Busnes – yn gyfrifol am dalu cymorth ariannol i fabwysiadwyr a gofalwyr maeth. Mae Carole yn goruchwyllo'r staff gweinyddol eraill yn y gwasanaeth ac yn rhoi arweiniad i fabwysiadwyr ar faterion sy'n ymwneud â hawliau budd-daliadau. Pan fydd plant yn derbyn gofal am 12 mis neu fwy caiff cyfrif ISA lau ei sefydlu ar eu cyfer. Pan hysbysir Sefydliad y Cyfranddaliad nad yw'r plentyn bellach yn derbyn gofal, derbynnir llythyr – caiff hwn wedyn ei anfon at Weithiwr Cymdeithasol y plentyn i'w drosglwyddo i'r mabwysiadwyr i gysylltu â'r Sefydliad Cyfranddaliad gan mai'r mabwysiadwr yw'r unigolyn sydd â hawliau rhieni. NVQ4, RSA3, HNC (Busnes) a phrofiad helaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

**Larry Groom**

Cynorthwy-ydd Gweinyddol sy'n bennaf gyfrifol am reoli system TG y gronfa ddata CHARMS. Mae hefyd yn gyfrifol am goladu data ar gyfer adroddiadau rheoli. Sefydlu a chynnal a chadw Aelodau Paneli yn CHARMS. NVQ Lefel 2 mewn Gweinyddu Busnes, RSA3, CLAIT II, Microsoft Office Suite (heb Front Page) a CHARMS.

**Claire Pearce**

Gweinyddwr Cyswllt Blwch Llythyrau. Rwy'n gyfrifol am reoli a chydlynu'r trefniadau cyswllt blwch llythyrau o ddydd i ddydd a chofnodi cytundebau ar gronfa ddata CHARMS.

**Sarah Picken**

Ymunais â Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru fel Cymhorthydd Cefnogi Busnes yn 2011. Fy mhrif gyfrifoldeb gweinyddol yw cyflawni dyletswyddau fel Gweinyddwr ar gyfer Panel Mabwysiadu Sir y Fflint a Wrecsam. Rwy'n derbyn ymholiadau ac atgyfeiriadau gan rieni biolegol a pherthnasau sy'n dymuno cael cymorth a gwasanaethau cwnsela, ynghyd ag oedolion sydd wedi'u mabwysiadu ac sy'n dymuno cael gafael ar eu cofnodion mabwysiadu a gwasanaethau cyfryngu i fabwysiadwyr a pherthnasau biolegol yn y gobaith o olrhain aelodau o'u teulu biolegol. Rwyf hefyd yn gyfrifol am goladu data ar gyfer adroddiadau rheoli. Mae gennyf gymhwyster NVQ Lefel 3 mewn Gweinyddu Busnes.

**Manon Roberts**

Cynorthwy-ydd Gweinyddol rhan-amser, yn bennaf gyfrifol am goladu a dosbarthu adroddiadau ar gyfer y Panel Mabwysiadu a lledaenu gwybodaeth sy'n cael ei chynhyrchu o ganlyniad i waith y Panel. Cymryd cofnodion y panel. Coladu data o adroddiadau rheoli. Cymorth gweinyddol i'r Gwasanaeth Mabwysiadu yng Ngwynedd.

**Sue Abbott**

Fi yw Gweinyddwr y Panel. Cyn ymddeol o swydd lawn amser ar ddiwedd mis Mawrth 2017, gweithiais mewn nifer o sectorau gan gynnwys gwerthiant, y gyfraith ac awdurdodau lleol.

Gweithiais yn y gorffennol fel cymhorthydd gweinyddol i Wasanaeth Maethu a Mabwysiadu Conwy (gynt) mor bell yn ôl â 2006 cyn i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru gael ei ffurfio, ac yn ystod y swydd hon gweithiais ar brosesu materion Maethu a Mabwysiadu. Fy rôl yw cymryd cofnodion yng nghyfarfodydd y Panel fel bod cofnod cywir o'r trafodion yn cael eu cadw, crynhoi gwaith papur i Aelodau'r Panel cyn eisteddiad y Panel a'u cadarnhau yn ffurfiol, rwyf hefyd yn paratoi gwaith papur Penderfynwyr Asiantaethau yn dilyn y panel er mwyn cael cymeradwyaeth ffurfiol.

**Pat Fairclough**

Rwy'n gweithio fel Gweithiwr Cymdeithasol Sesiynol i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru. Mae gennyf brofiad helaeth o weithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc. Am 32 mlynedd gweithiais yn y sector cyhoeddus fel Arweinydd Ieuenctid, Cynghorwr Gyrfaoedd, Gweithiwr Cymdeithasol Cymunedol, Gweithiwr Cefnogi Dwys (cydlynu Gofal Maeth Mechniaeth a Remánd) a Gweithiwr Cymdeithasol Dyletswydd. Yn y GIG gweithiais fel Uwch Weithiwr Cymdeithasol a Therapydd i CAMHS, Goruchwyliwr Clinigol i Staff Iau a Nyrs TTI. Yn ddiweddarach bum hefyd yn Gyngorwr Amddiffyn Plant a Goruchwyliwr Clinigol i'r Tîm Diogelu Plant, Nyrsys Dechrau'n Deg a'r Tîm Anabledd Clinigol.

Roeddwn yn aelod sefydlu Gofal Profedigaeth Cruise Wreccsam a Chaer, gan hyfforddi gyda nhw fel Cwnselydd Profedigaeth ac fel Goruchwylydd. Am 15 mlynedd gweithiais gyda Papyrus i Atal Hunanladdiadau Ifanc.

Mae fy nghymwysterau proffesiynol yn cynnwys B.A (Agored), Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol, Diploma H.E. mewn Cwnsela a Diploma Ôl-raddedig mewn Goruchwylio Clinigol. Rwyf wedi hyfforddi i lefel 4 mewn Ymlyniad gyda Dan Hughes a hyfforddi fel Cymhorthydd Cyntaf Iechyd Meddwl. Rwy'n Weithiwr Cymdeithasol cofrestredig ac yn aelod o Gymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain.

**Morwenna Berry**

Rwy'n Weithiwr Cymdeithasol cymwys ac rwyf wedi gweithio gyda Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru ers 2013. Cyn hynny gweithiais i Wasanaethau Cymdeithasol Conwy yn y Timau Plant Sy'n Derbyn Gofal, Cyfreithiol a Hirdymor. Enillais Ddiploma mewn Gwaith Cymdeithasol trwy'r

Brifysgol Agored ym mis Rhagfyr 2003, ar ôl gweithio fel Gweithiwr Cymdeithasol dan Hyfforddiant i Gonwy am 2 flynedd. Ym mis Mawrth 2008 llwyddais i ennill cymhwyster Ôl-gymhwysio mewn Gwaith Cymdeithasol.

### **Llinos Evans**

Ymunais â Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn ddiweddar fel Gweithiwr Cymorth Therapiwtig i Deuluoedd; fy rôl yw darparu cymorth ôl-gymhwysio therapiwtig i rieni sy'n mabwysiadu, plant a phobl ifanc.

Mae gennyf Ddiploma lefel 4 mewn Gofal Plant, Dysgu a Datblygu, ar ôl gweithio ym maes cymorth plant a theuluoedd am 8 mlynedd mewn amryw o rolau gan gynnwys y blynyddoedd cynnar, fel trefnydd chwarae ac yn y Rhaglen Dechrau'n Deg.

Am y 9 mlynedd diwethaf mae fy rôl wedi cynnwys darparu cymwysterau gofal plant, gwaith chwarae ac iechyd a gofal cymdeithasol (plant a phobl ifanc) yn y sector dysgu yn y gwaith. Mae gennyf gymhwyster Asesydd TAQA lefel 3; Gwobr Sicrhau Ansawdd Mewnol TAQA lefel 4 a Diploma lefel 4 mewn Cyngor ac Arweiniad.

### **Lynda Jones**

Mae gennyf brofiad o weithio gyda Phlant a Theuluoedd mewn lleoliadau amrywiol. Yn ystod y 18 mlynedd diwethaf gweithiais fel Gweithiwr Cefnogi Teuluoedd a Rhieni yn y sector gwirfoddol yng Ngwynedd gyda rhaglenni Teuluoedd Yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Roedd y gwaith yn cynnwys cefnogi teuluoedd, asesu anghenion a gweithio i geisio diwallu'r anghenion hynny naill ai yn y cartref, mewn lleoliadau grŵp neu yn y gymuned.

Roedd cymorth rhianta ac ymddygiad yn cynnwys darparu cyrsiau Y Blynyddoedd Rhyfeddol, o Fabanod trwodd i Blant Bach, paratoi ar gyfer ysgol, cyfnod sylfaenol ac oedran ysgol.

Cafodd Cysylltiadau Teuluol a Chysylltiadau Magwraeth eu darparu hefyd ynghyd â Dianc, Rheoli Materion Ariannol Teuluol, Maeth, Tylino Babanod a chyrsiau Meithrin Rhieni (Ymwybyddiaeth Ofalgar). Cymerais ran hefyd mewn treialon ymchwil yn seiliedig ar dystiolaeth.

Cymwysterau:

NVQ 3 a 4 Addysg a Gofal Plant  
PGE/Tystysgrif mewn Addysg  
NOS lefel 4 Gweithio gyda Rhieni, Cymorth Dwys i Deuluoedd ag Anghenion Niferus a Chymhleth  
Hyfforddwr Rhieni y Blynyddoedd Rhyfeddol Achrededig, Tylino Babanod IAIM a Meithrin Rhieni.  
Asesydd Agored Cymru A1

### **Sian Messum**

Fy enw i yw Sian Messum ac rwy'n Weithiwr Cymorth Therapiwtig i Deuluoedd ôl-fabwysiadu gyda Gwasanaethau Mabwysiadu Gogledd Cymru.

Mae gennyf brofiad o weithio gyda phlant a theuluoedd yn y Cyfnod Sylfaen, Rhaglen Dechrau'n Deg a chefnogi plant ag ystod o anghenion dysgu ychwanegol o rai cymdeithasol ac emosiynol i ADHD ac ASD ac anghenion cymhleth eraill mewn cartref gofal therapiwtig.

Mae fy ngwaith wedi golygu deall profiad bywyd unigol a stori pob plentyn, gweithio mewn partneriaeth â nhw, eu rhieni neu ofalwyr ac awdurdodau lleoli a chynnig cymorth wedi'i bersonoli. Helpais blant a phobl ifanc i adfer eu ffydd a dysgu strategaethau i reoli anawsterau o'u gorffennol a'u hanawsterau presennol. Mae fy ngwaith wedi canolbwyntio ar gefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu'r offer sydd eu hangen arnyn nhw i wneud dewisiadau a fydd yn gwella ac yn trawsnewid eu bywydau.

### Cymwysterau

Gofal Plant, Dysgu a Datblygu lefel 3

Gofal Cymdeithasol (plant a phobl ifanc) lefel 3

Sut i gysylltu, empathyddio a ffurfio cynghrair waith ddiwyll gyda phobl ifanc anniddig a gofidus gan David Taransuad

### **Kirsty Gloyne**

Yn ddiweddar ymunais â Thîm Mabwysiadu Gogledd Cymru fel Cydlynnydd Gwasanaeth Pobl Ifanc Gogledd Cymru.

Rwy'n Weithiwr Ieuenctid a Chymuned JNC cymwys ac mae gennyf Ddiploma mewn Perthnasoedd Rhywiol Iach, Cam-drin Cyffuriau ac Alcohol, Therapi Ymddygiad Gwybyddol a Seicoleg Plant. Rwyf bob amser yn chwilio am gyrsiau newydd i ehangu fy sylfaen gwybodaeth.

Cyn y rôl hon roeddwn yn gweithio mewn Ysgol Gynradd ac Uwchradd Arbenigol gyda disgyblion a'u teuluoedd fel cymorth bugeiliol ac Ymgysylltiad Teuluol. Rwyf hefyd yn gweithio gyda Phobl Ifanc mewn cynlluniau byw â chymorth. Yn ystod y ddwy rôl hyn rwyf wedi gweithio gyda thimau Plant sy'n Derbyn Gofal, nyrsys AD, gweithwyr cymdeithasol amrywiol ar draws timau'r rheng flaen ac asiantaethau allanol megis Iechyd Meddwl, CAIS, Troseddwy'r Ifanc a Sorted.

### **Susanne McCarthy**

Rwy'n hynod falch o gael fy mhenodi yn Gydlynnydd Gwasanaeth Cymorth Addysg Therapi mewn Mabwysiadu yng ngogledd Cymru. Rwy'n teimlo'n angerddol dros gefnogi teuluoedd sy'n mabwysiadu ar hyd eu siwrnai o greu perthnasoedd cryf ac iach trwy ddefnyddio'r dull therapiwtig pwrpasol y mae'r prosiect TESSA yn ei gynnig. Credaf bod grymuso rhieni gyda sgiliau, gwybodaeth a chymorth cyfoedion i gyflawni'r cyfleoedd gorau posibl i'w plant i ffynnu a chael profiad cadarnhaol yn hanfodol.

Rwy'n dod o gefndir addysg gan gefnogi'r plant a'r teuluoedd mwyaf diamddiffyn i weithio o amgylch rhwystrau i ddysgu a'u galluogi i wella eu canlyniadau y tu mewn ac allan i amgylchedd yr ysgol.

Rwy'n Gymhorthydd Cyntaf Iechyd Meddwl cymwys ac yn Gynorthwy-ydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA) yn ogystal â bod yn hyfforddedig



mewn rhai therapïau siarad, celf a chwarae. Rwy'n mwynhau gweithio ochr yn ochr â phlant i'w helpu i brosesu eu meddyliau a'u teimladau a'u helpu i ddeall a rheoli eu hemosiynau.

Yn ddiweddar cwblheais radd mewn Gofal Plant Therapiwtig ac mae gennyf ddiddordeb mawr mewn meysydd ymlyniad, trawma datblygiadol ac astudiaeth ACEs. Rwyf wedi hyfforddi staff addysg a rhieni i ddeall y meysydd hyn yn well a sut i gefnogi plant trwy feithrin perthnasoedd iach ac ymddiriedaeth.

Rwy'n wirioneddol gyffrous i ddechrau'r siwrnai hon gyda Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru a rhaglen TESSA ac edrychaf ymlaen at chwarae fy rhan yn y gwaith o lunio gwasanaeth gwerthfawr a llwyddiannus.